WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cynllunio i Ryddhau Cleifion – **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 147A2017-18

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru – swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Fflur Jones a Gabrielle Smith.

# Cynnwys

Gall y Bwrdd Iechyd ddangos ei fod yn bwriadu gwella cynlluniau i ryddhau cleifion mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol, ond mae'r hyfforddiant i'r staff yn wael, ceir cyfyngiadau ar drefniadau monitro perfformiad ac mae diffyg llwybrau ffurfiol i ryddhau cleifion yn rhwystro gwelliant.


## Adroddiad cryno

Y Cefndir 4

Y Prif Ganfyddiadau 5

Argymhellion 6

## Adroddiad manwl

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i gydweithio â rhanddeiliaid allweddol i gynllunio gwelliannau i gynlluniau rhyddhau cleifion, ac i lif cleifion, ond mae'r diffyg llwybrau rhyddhau ffurfiol yn rhwystro hyn. 9

Mae'r adnoddau sydd wedi'u neilltuo i gefnogi cynlluniau rhyddhau yn gymharol brin, ac nid yw'r adnoddau hynny ond ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener. Yn ogystal â hyn, mae'r hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau, a'r wybodaeth am bolisïau rhyddhau, yn wael. 18

Er bod llinellau atebolrwydd clir, ceir cyfyngiadau ar drefniadau monitro perfformiad cynlluniau rhyddhau cleifion ac mae'r perfformiad yn erbyn mesurau allweddol yn parhau i fod yn heriol. 27

## Atodiadau

Atodiad 1 – canfyddiadau meintiol Uned Gyflawni GIG Cymru o archwiliadau o gynlluniau rhyddhau yn ysbytai acíwt y Bwrdd Iechyd. 35

Atodiad 2 – dull archwilio 37

Atodiad 3 – ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion 39

Atodiad 4 – gweithgareddau a gyflawnir gan y Tîm Cyswllt Rhyddhau 45

# Adroddiad cryno

## Y Cefndir

1 Proses barhaus i ganfod y gwasanaethau a'r gefnogaeth y gallai unigolyn fod eu hangen wrth adael yr ysbyty (neu wrth symud rhwng ysbytai) yw cynllunio i ryddhau. Y nod yw sicrhau bod y gofal cywir ar gael yn y man cywir, ac ar yr amser cywir. Mae proses ryddhau effeithiol ac effeithlon yn ffactor pwysig wrth sicrhau llif dda o gleifion ac yn allweddol er mwyn sicrhau gofal cleifion da a defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau'r GIG. Llif cleifion yw'r llif o gleifion rhwng staff, adrannau a sefydliadau eraill ar hyd llwybr gofal, o fod wedi cyrraedd yr ysbyty hyd at ryddhau neu drosglwyddo.

2 Mae gwelyau mewn ysbytai o dan bwysau cynyddol, yn enwedig gan fod 1,800 o welyau wedi cael eu colli ar draws Cymru dros y chwe blynedd diwethaf. Gall cynllunio gwael wrth ryddhau cleifion olygu arosiadau hwy diangen, sydd yn eu tro yn amharu ar rannau eraill o'r ysbyty, gan greu amseroedd aros hirach mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu olygu bod yn rhaid canslo derbyniadau cynlluniedig.

3 Bob blwyddyn,ledled Cymru bydd cleifion yn cael eu derbyn neu eu rhyddhau o'r ysbyty tua 750,000 o weithiau. Mae'r broses ryddhau yn gymharol syml i 80% o'r cleifion sy'n gadael yr ysbyty. Bydd y cleifion hyn yn dychwelyd adref gyda mân anghenion iechyd neu ofal cymdeithasol, os o gwbl, heb fod angen cynlluniau na darpariaeth gymhleth. I'r 20% sy'n weddill, mae cynllunio i ryddhau yn broses fwy cymhleth oherwydd anghenion iechyd ac/neu ofal cymdeithasol parhaus, a allai fod yn anghenion tymor byr neu dymor hir.

4 Yn achos cleifion unigol, y mae llawer ohonynt yn 65 oed neu'n hŷn, gall oedi wrth ryddhau o'r ysbyty arwain at ganlyniadau salach yn sgil colli annibyniaeth, hyder a'r gallu i symud, yn ogystal â risg o gael heintiau yn yr ysbyty, o ail-dderbyn i'r ysbyty neu'r angen am gymorth hirdymor.

5 Er gwaethaf y llu o ganllawiau i gefnogi cynlluniau rhyddhau da,[1] [2] [3] dangosai gwaith a gyflawnwyd yn 2016 gan Uned Gyflawni (yr Uned Gyflawni) GIG Cymru yn holl ysbytai Cymru fod cyfleoedd i wella'r broses cynllunio i ryddhau cleifion, i ryddhau capasiti sylweddol i gleifion mewnol ac i wella profiadau a chanlyniadau cleifion. Roedd meysydd penodol i'w gwella yn cynnwys:

- cydweithio’n well â gwasanaethau cymunedol;

[1]Cylchlythyr Iechyd Cymru (2005), **Hospital Discharge Planning Guidance**, 2005/035 [Saesneg yn unig]

[2]Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (2008), **Passing the Baton**

[3] Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth Glinigol (2015), **Transition between inpatient hospital settings and community or care home settings for adults with social care needs**

- nodi'n gliriach ac yn gynharach y cymhlethdod yn gysylltiedig â rhyddhau o'r ysbyty, fel bo modd hwyluso'r broses ryddhau;
- mwy o eglurder ynghylch llwybrau rhyddhau,[4] a
- gwell gwybodaeth a chyfathrebu â chleifion a'u teuluoedd.

6 Asesodd yr Uned Gyflawni y dystiolaeth ysgrifenedig mewn nodiadau achos yn erbyn gofynion penodol a nodwyd yn 'Passing the Baton'[2]. Dengys y canfyddiadau ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd) fod y broses rhyddhau cleifion yn amrywio o'i hasesu yn erbyn yr arfer a ddisgwylir. Dangosir y canfyddiadau'n fanylach yn Atodiad 1.

7 Mae llawer o'r materion a amlygwyd gan yr Uned Gyflawni wedi bod yn themâu cyffredin ers blynyddoedd, a phrin yw'r dystiolaeth i awgrymu bod prosesau cynllunio i ryddhau cleifion yn gwella go iawn. Gan fod y galw am wasanaethau ysbyty ar gynnydd a'r capasiti gwelyau yn parhau i ostwng, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol ei bod hi'n bryd adolygu a yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn ddigon cadarn i sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflwyno i gynlluniau rhyddhau cleifion.

8 Archwiliai'r adolygiad hwn a oedd gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas â chynllunio i ryddhau. Ceir manylion y fethodoleg archwilio yn Atodiad 2. Yn y gwaith, gofynnwyd yn benodol a oedd y canlynol yn wir yn achos y Bwrdd Iechyd:

- bod ganddo fframwaith cynllunio strategol cadarn ar waith er mwyn cynllunio i ryddhau cleifion;
- bod ganddo drefniadau effeithiol i fonitro ac adrodd ar gynlluniau i ryddhau cleifion; a
- ei fod wedi cymryd camau priodol i reoli cynlluniau rhyddhau cleifion a sicrhau gwelliannau.

9 Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi bod yn cynnal adolygiad o waith addasu tai. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, o ystyried cyfrifoldebau'r naill a'r llall dros reoli a dyrannu Grantiau cyfleusterau i'r Anabl, Grantiau Addasiadau Ffisegol a ffrydiau ariannu eraill a ddefnyddir i ariannu addasiadau. Ceir cysylltiadau clir rhwng hyn a chynlluniau rhyddhau cleifion o ystyried y ffaith y gall oedi wrth osod neu ariannu addasiadau tai arwain at oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Yn ogystal â hyn, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi bod yn archwilio ansawdd y llif cyfathrebu a gwybodaeth rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd yng nghyswllt rhyddhau cleifion. Bwriedir cyhoeddi'r

[4] Mewn llwybrau rhyddhau penodol nodir y gyfres o gamau y mae angen eu cymryd ac amseriad ymyraethau gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd ar gyfer grwpiau penodol o gleifion, yn enwedig rhai ag anghenion cymhleth, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau mewn modd diogel ac amserol.

adroddiadau, sy'n nodi canfyddiadau'r ddau adolygiad hyn, yn nhymor yr hydref 2017.

## Y Prif Ganfyddiadau

10 Dyma ein casgliad cyffredinol: **Gall y Bwrdd Iechyd ddangos ei fod yn bwriadu gwella cynlluniau i ryddhau cleifion mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol, ond mae'r hyfforddiant i'r staff yn wael, ceir cyfyngiadau ar drefniadau monitro perfformiad ac mae diffyg llwybrau ffurfiol i ryddhau cleifion yn rhwystro gwelliant**. Nodir ein rhesymau yn y paragraffau isod.

11 **Cynllunio**: Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i gydweithio â rhanddeiliaid allweddol i gynllunio gwelliannau i gynlluniau rhyddhau cleifion, ac i lif cleifion, ond mae'r diffyg llwybrau rhyddhau ffurfiol yn rhwystro hyn:

- mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i weithio gyda rhanddeiliaid lleol i wella cynlluniau rhyddhau a llif cleifion;
- mae lle i atgyfnerthu'r polisi rhyddhau; ac
- mae'r Bwrdd Iechyd yn dal heb ddatblygu a gweithredu llwybrau rhyddhau ffurfiol i gefnogi cynlluniau rhyddhau.

12 **Trefniadau i gefnogi rhyddhau cleifion**: Mae'r adnoddau sydd wedi'u neilltuo i gefnogi cynlluniau rhyddhau yn gymharol brin, ac nid yw'r adnoddau hynny ond ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener. Yn ogystal â hyn, mae'r hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau, a'r wybodaeth am bolisïau rhyddhau, yn wael.

- mae'r Bwrdd Iechyd wedi neilltuo rhywfaint o adnoddau i gefnogi cynlluniau rhyddhau, ond nid yw'r rhain ond ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener; ac
- mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella mynediad at wybodaeth am wasanaethau cymunedol ond ceir diffyg hyfforddiant ar gynlluniau rhyddhau, ac mae mwy i'w wneud er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch polisïau rhyddhau

13 **Monitro ac adrodd**: Er bod llinellau atebolrwydd clir, ceir cyfyngiadau ar drefniadau monitro perfformiad cynlluniau rhyddhau cleifion ac mae'r perfformiad yn erbyn mesurau allweddol yn parhau i fod yn heriol:

- ceir llinellau atebolrwydd clir a threfniadau rheolaidd i graffu'n weithredol ar berfformiad cynlluniau rhyddhau, sy'n cynnwys partneriaid;
- mae'r wybodaeth ynghylch monitro ac adrodd ar berfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion yn brin, ac ni cheir trefniadau i fonitro'r graddau y cydymffurfir â gweithdrefnau cynllunio i ryddhau; ac
- nid yw mesurau perfformiad allweddol wedi cael eu gwella eto i adlewyrchu gwaith i wella cynlluniau rhyddhau.

# Argymhellion

## Dangosyn 1: argymhellion

Nodir yn y tabl yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad o gynlluniau rhyddhau ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd, lle nodir sut y maent yn bwriadu ymateb i'r argymhellion hyn, wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | **Datblygu llwybrau**: Nid oedd llwybrau rhyddhau ffurfiol wedi'u sefydlu ar adeg yr archwiliad. Er bod gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau i adolygu llwybrau proffil cleifion, mae'r ffaith na cheir llwybrau ffurfiol, hawdd eu deall a hygyrch i staff ar wardiau yn cynyddu'r risg o anghysondeb ac o oedi cyn rhyddhau cleifion.<br>**Dylai'r Bwrdd Iechyd:**<br>a. **Gyflwyno llwybrau rhyddhau manwl ar gyfer pob claf;**<br>b. **Sicrhau bod llwybrau rhyddhau wedi'u nodi'n glir ym mholisi rhyddhau'r Bwrdd Iechyd;**<br>c. **Sicrhau bod llwybrau yn hawdd eu deall ac yn hygyrch i staff ward, ee drwy siart lif neu fatrics a arddangosir yn ardaloedd y staff ar y ward; a**<br>d. **Darparu hyfforddiant i staff ward ar gymhwyso llwybrau rhyddhau** |
| A2 | **Adolygu polisi:** Gwelsom fod y polisi rhyddhau a oedd yn cael ei adolygu yn ystod ein gwaith maes wedi'i gytuno'n â phartneriaid allweddol, ond bod lle i gryfhau'r polisi eto yn erbyn y meini prawf a osodwyd gennym. **Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried yr elfennau a sgoriwyd yn isel wrth ddiwygio ei bolisi**. |
| A3 | **Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau.** Gwelsom nad oes trefniadau cyson ar hyn o bryd i ddarparu hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau i'r holl staff perthnasol.<br>**Dylai'r Bwrdd Iechyd:**<br>a. **Gynnwys cynllunio i ryddhau yn rhan o'r hyfforddiant ymsefydlu i bob aelod newydd o staff;**<br>b. **Darparu hyfforddiant gloywi ar gynllunio i ryddhau i'r holl staff perthnasol, o bosib yn rhan o gwrs e-ddysgu a allai fod yn fwy hygyrch i staff ward.** |
| A4 | **Cydymffurfiaeth â'r polisi rhyddhau.** Nodir yn y polisi rhyddhau y dylid cynnal archwiliadau cydymffurfio rheolaidd, ond gwelsom nad oes archwiliad o'r fath wedi cael ei gynnal yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Nid yw'r diffyg gwybodaeth ar gyfer monitro'r graddau y cydymffurfir â phrosesau cynllunio i ryddhau yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd fod y staff yn cymhwyso'r polisi fel y bwriadwyd. **Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno cylch rheolaidd (tair i bum mlynedd) o archwiliadau er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i bolisi rhyddhau.** |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A5 | **Adroddiadau rhyddhau.** Gwelsom fod y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad yn derbyn gwybodaeth reolaidd am achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal, ond mai ychydig o wybodaeth a gyflwynir iddynt yn benodol am gynllunio i ryddhau cleifion. Byddai gwybodaeth o'r fath o gymorth i sicrhau dealltwriaeth well o'r rhesymau wrth wraidd perfformiad y Bwrdd Iechyd. **Dylai'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu ei drefniadau i adrodd ar berfformiad drwy gynnwys mesurau ychwanegol yn ei adroddiad rheolaidd ar berfformiad, fel:**<br>• **nifer a % y cleifion yr amcanwyd dyddiad rhyddhau ar eu cyfer;**<br>• **aildderbyniadau cyn pen 28 diwrnod ar ôl rhyddhau o'r ysbyty;**<br>• **% sy'n cael eu rhyddhau cyn hanner dydd;**<br>• **% sy'n cael eu rhyddhau gyda'r nos, heb i hynny fod wedi'i gynllunio; a'r**<br>• **% sy'n cael eu rhyddhau cyn pen 24 awr a 72 awr yn dilyn datganiad eu bod yn 'feddygol iach'.** |
| A6 | **Cyfathrebu â chleifion:** Er bod y pamffled rhyddhau cleifion yn ymddangos fel pe bai wedi'i lunio'n dda ac yn gynhwysfawr, nid oedd y staff y buom ni yn siarad â hwy yn ei ddefnyddio'n rheolaidd wrth ymdrin â chleifion. **Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cleifion yn deall y broses ryddhau drwy:**<br>**a.** **Sicrhau bod y pamffled rhyddhau cleifion yn cael ei ddefnyddio mewn modd cyson er mwyn rhoi gwybodaeth i gleifion;**<br>**b.** **Sicrhau y gall staff ar bob ward berthnasol gael copïau o'r pamffled rhyddhau cleifion; a**<br>**c.** **Sefydlu mesurau i ddeall a yw cleifion yn teimlo eu bod yn gwybod digon am y broses ar gyfer oedi cyn trosglwyddo gofal.** |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i gydweithio â rhanddeiliaid allweddol i gynllunio gwelliannau i gynlluniau rhyddhau cleifion, ac i lif cleifion, ond mae'r diffyg llwybrau rhyddhau ffurfiol yn rhwystro hyn

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i weithio gyda rhanddeiliaid lleol i wella cynlluniau rhyddhau a llif cleifion

14 Ym mis Hydref 2016, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon at holl Gadeiryddion y GIG er mwyn cadarnhau ei fod yn disgwyl i gynlluniau gwella gofal heb ei drefnu gynnwys cynlluniau i wella prosesau rhyddhau cleifion. Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru[5] hefyd yn cyfleu'n glir y dylai sefydliadau nodi sut mae eu cynlluniau yn cefnogi ac yn gwella llif cleifion. Dylid canolbwyntio ar leihau nifer y bobl oedrannus a bregus sy'n cael eu derbyn, drwy asesu ac ymyrryd mewn modd rhagweithiol, a rhyddhau cleifion mor fuan ag sy'n briodol o safbwynt clinigol, heb unrhyw oedi diangen.

15 Yn rhan o'n gwaith archwilio, buom yn asesu'r graddau y mae cynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o ymagwedd strategol ehangach i wella llif cleifion. Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd y Bwrdd Iechyd yn gweithio ar sawl cynllun yr oedd wedi'u datblygu mewn cydweithrediad â phartneriaid i wella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion. Dyma'r cynlluniau hynny:

- y Cyd-gynllun Gwella Gofal Heb ei Drefnu;
- y Cynllun Tymhorol; a'r
- cynllun prosiect Ffocws ar Lif.

16 Datblygodd y Bwrdd Iechyd ei Gyd-gynllun Gwella Gofal Heb ei Drefnu 2016-19 a'i Gynllun Pwysau Tymhorol 2016-17 â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cyngor Sir Powys (CSP), Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Chymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Powys (PAVO). Mae dau nod cyffredin i'r ddau gynllun allweddol, sef:

a. cadw pobl yn iach a sicrhau eu bod yn parhau i allu byw yn annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain, hyd y gellir, drwy ddarparu gwasanaethau sy'n lleihau'r galw am ofal heb ei drefnu, yn enwedig y galw am ofal brys, a

b. sicrhau bod gofal yn cael ei drosglwyddo mewn modd amserol a diogel yn ôl i gartrefi a chymunedau pobl ym Mhowys, cyn gynted ag y daw cyfnod o ofal acíwt i ben.

17 Er mwyn mynd i'r afael â'r nod cyntaf o gefnogi pobl yn y gymuned a lleihau'r galw ar wasanaethau acíwt, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd wasanaethau neu fodelau gofal

[5] Llywodraeth Cymru, **Fframwaith Cynllunio'r GIG 2017/20**, 2016

newydd yn ddiweddar. Mae'r rhain yn cynnwys: Timau Adnoddau Cymunedol;[6] wardiau rhithwir;[7] a'r ganolfan rheoli cyflyrau hirdymor.

18 Roedd camau o fewn y cynlluniau a oedd yn gysylltiedig â lleihau achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal a gwella llif cleifion yn cynnwys: adolygu'r polisi dewis llety a gytunwyd ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd; cynyddu capasiti gofal cartref a chartrefi gofal; a datblygu llwybrau proffil cleifion.

19 Ym mis Ebrill 2016, sefydlodd y Bwrdd Iechyd ei Brosiect Ffocws ar Lif, yn rhan o'i Rhaglen Gofal Heb ei Drefnu ehangach, i wella llif cleifion o'r adeg pan gânt eu derbyn hyd at eu rhyddhau i'r gyrchfan fwyaf priodol, boed hynny i gartref y claf, i gartref gofal neu i gartref nyrsio. Mae'r cynllun prosiect Ffocws ar Lif yn adeiladu ar ddata a gwybodaeth, gan gynnwys astudiaeth 'mynychder pwynt' a gynhaliwyd gan y Bwrdd Iechyd ar ddechrau 2016. Pwrpas yr astudiaeth oedd galluogi'r Bwrdd Iechyd i gael dealltwriaeth well o'r rhesymau pam bod cleifion yn cael eu derbyn i ysbytai cymunedol ym Mhowys, a sut mae hynny'n digwydd, a dulliau eraill posibl o ddarparu gofal. Yn ôl yr adroddiad, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhy ddibynnol ar gartrefi gofal wrth ryddhau cleifion, ac awgrymwyd bod angen gwella ei bolisïau, ei lwybrau a'i brosesau i sicrhau proses ryddhau amserol o ansawdd uchel sydd o fudd i gleifion. Mae'r prosiect Ffocws ar Lif hefyd yn cynnwys yr argymhellion o adolygiad yr Uned Gyflawni o nodiadau achos. Dyma rai o'r camau a nodwyd drwy'r Prosiect Ffocws ar Lif:

- diwygio Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Rhyddhau Cleifion o Ysbytai Cymunedol;
- datblygu dangosfwrdd llif cleifion i gefnogi'r rheolaeth ar berfformiad; a
- diwygio diffiniadau o rolau staff ward a'u hanghenion hyfforddi, a Rheolwyr Tîm Clinigol Integredig.


20 Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG pa ffactorau sy'n cyfrannu at oedi cyn trosglwyddo gofal, er mwyn canfod i ba raddau y mae eu cynlluniau'n anelu i ymdrin â'r ffactorau sy'n achosi'r mwyaf o broblemau. Mae Dangosyn 2 yn dangos bod prinder o ofalwyr cartref, prinder o welyau mewn cartrefi gofal i bobl â dementia, a phrinder capasiti ar draws gwasanaethau ailalluogi cymunedol yn ffactorau o bwys sydd yn achosi oedi wrth ryddhau cleifion neu drosglwyddo gofal.

[6]Timau sydd yn gysylltiedig â phob practis meddyg teulu yn ardal y Bwrdd Iechyd yw Timau Adnoddau Cymunedol. Eu pwrpas yw lleihau'r nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty, a chefnogi cleifion sydd angen gofal ar ôl cael eu rhyddhau.

[7]Mae'r Ward Rithwir yn darparu gwasanaeth i gleifion sydd mewn perygl o orfod mynd i'r ysbyty ar frys, lle bo modd osgoi hynny. Bydd cyflwr y claf yn cael ei reoli yn ei gartref ei hun yn hytrach nag ar ward ysbyty.

Dangosyn 2: ffactorau sy'n cyfrannu at oedi cyn rhyddhau cleifion neu drosglwyddo gofal ar draws sefydliadau'r GIG

Mae'r siart yn dangos y ffactorau yr ystyrir eu bod yn cyfrannu at oedi wrth ryddhau o'r ysbyty neu drosglwyddo gofal.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017[8]

21 Adroddodd y Bwrdd Iechyd fod y problemau canlynol yn aml yn achosi oedi:

- amser i gwblhau addasiadau graddfa fawr
- prinder gofalwyr cartref
- prinder gwelyau mewn cartrefi gofal preswyl
- prinder gwelyau mewn cartrefi gofal i bobl â dementia
- prinder gwelyau cyffredinol mewn cartrefi nyrsio; a
- phrinder capasiti ar draws gwasanaethau ailalluogi cymunedol.

22 Mae'n bwysig cydnabod bod y rhain yn broblemau sylweddol, nad oes gan y Bwrdd Iechyd reolaeth uniongyrchol arnynt. Serch hynny, mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd gydweithio â'i bartneriaid er mwyn canfod ffyrdd o atal oedi cyn rhyddhau cleifion oherwydd y problemau hyn.

23 Yn rhan o'n hadolygiad, buom yn siarad â chynrychiolydd o Gyngor Iechyd Cymunedol (CIC) Powys. Er bod y CIC wedi derbyn 307 o gwynion a oedd yn cynnwys elfennau'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion yn ystod 2016-17 roedd a wnelo 280 ohonynt yn uniongyrchol ag argaeledd cartrefi gofal. Mynegodd cynrychiolydd o'r CIC rwystredigaeth â'r ffaith ei bod hi'n gallu cymryd dros fis i

[8]Cawsom ymatebion gan y saith bwrdd iechyd a chan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae Byrddau Iechyd Betsi Cadwaladr a Hywel Dda yn trefnu gwasanaethau cynllunio i ryddhau cleifion ar sail ardal leol neu ddaearyddiaeth, felly mae gennym fwy nag un ffurflen ddata ar gyfer y ddau fwrdd iechyd hyn.

ddatrys rhai o'r cwynion dan sylw, tra bo'r claf yn dal i fod yn yr ysbyty heb fod angen.

24 Nododd y Bwrdd Iechyd hefyd fod problemau eraill wedi arwain at oedi wrth ryddhau cleifion. Mae'r rhain yn cynnwys cytuno ar ffioedd atodol ac anghydfodau ynghylch honiadau bod cartrefi gofal yn rhoi'r flaenoriaeth i gleifion sy'n eu hariannu eu hunain ar draul lleoliadau a ariennir gan y gwasanaethau cymdeithasol.

25 Ceisiai'r Cynllun Pwysau Tymhorol a'r Cydgynllun Gwella Gofal Heb ei Drefnu ymdrin â rhai o'r problemau a amlygwyd uchod, er enghraifft drwy:

- sefydlu Gwasanaeth Broceru gwell i ddarparu gwybodaeth reolaidd am argaeledd gwelyau mewn cartrefi gofal a'r gallu i brynu gwelyau ychwanegol yn y fan a'r lle os oes angen;
- ehangu'r defnydd o Dimau Adnoddau Cymunedol i gefnogi cartrefi gofal; a
- datblygu Gwasanaeth Ailalluogi Ymateb Brys fel opsiwn arall yn lle gofal yn yr ysbyty.

26 Ar hyd y blynyddoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau ffrydiau ariannu sy'n anelu i feithrin mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau, a'r diweddaraf o'r rhain yw'r Gronfa Gofal Integredig (CGI). Cronfa gyfun yw'r CGI, a gyflwynwyd yn 2014-15, ac o ran llif cleifion, mae'n ariannu cynlluniau i atal derbyniadau i'r ysbyty, i gefnogi annibyniaeth pobl hŷn ac i leihau achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal. Cafodd y gronfa ei rhyddhau fel cronfa untro yn unig i ddechrau, ond yn 2015-16, fe'i newidiwyd yn gronfa gylchol.

27 Mae cadarnhau bod y CGI yn gronfa gylchol wedi rhoi mwy o hyder i bartneriaid, gan gynnwys y Bwrdd Iechyd, gynllunio am y tymor hir. Ym Mhowys, bydd partneriaid yn cytuno ar gynlluniau a ariennir drwy'r CGI, ac yn gwerthuso'r cynlluniau hynny, drwy strwythur llywodraethu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, mae rhaglen y CGI yn cynnwys tair elfen: atal yn y gymuned; ailalluogi fel elfen greiddiol; a lleihau derbyniadau a chyflymu'r broses ryddhau. Mae'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol wedi cytuno i ddefnyddio arian y CGI ar gyfer sawl cynllun sy'n anelu i ddarparu gwasanaethau iechyd amgen yn y gymuned, lleihau achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal drwy wasanaethau cam i fyny a cham i lawr, a chefnogi'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol i gydweithio'n fwy effeithiol. Er enghraifft, derbyniodd Powys £4 miliwn i gefnogi'r broses o integreiddio system TG newydd sy'n cefnogi iechyd a gofal cymdeithasol, fel bod gweithwyr proffesiynol yn cydweithio i ddarparu gofal yn nes at adref. Dywedodd staff y buom yn siarad hwy yn rhan o'n gwaith maes fod y cynlluniau hyn yn llwyddiannus iawn. Un enghraifft benodol oedd defnyddio'r arian ar gyfer prosiect peilot yn ystod gaeaf 2016-17 i gynnwys swydd Therapydd Galwedigaethol yn nhîm y Cydgysylltydd Trosglwyddo Gofal (y Tîm Cyswllt Rhyddhau), er mwyn cefnogi'r ddolen gyswllt rhwng ysbytai ac ailalluogi.

## Mae lle i atgyfnerthu'r polisi rhyddhau

28 Dylid ystyried y broses ryddhau yn rhan o broses ofal ehangach, yn hytrach na'i hystyried fel digwyddiad ynysig ar ddiwedd arhosiad y claf. Dylai sefydliadau'r GIG gael polisïau a gweithdrefnau ar gyfer rhyddhau ac/neu drosglwyddo gofal, ac yn ddelfrydol dylid datblygu'r rheiny mewn cydweithrediad â phartneriaid statudol. Yn ogystal â hyn, dylai sefydliadau'r GIG gael polisi i gynnig dewis i'r cleifion hynny y mae angen iddynt symud ymlaen i gartref gofal yn rhan o'u trefniadau gofal parhaus, er y gallai'r dewis fod yn brin mewn sawl ardal.

29 Adolygwyd polisi'r sefydliad ar ryddhau cleifion a throsglwyddo gofal drwy ddefnyddio matrics aeddfedrwydd[9]. Mae'r matrics aeddfedrwydd yn asesu 17 o elfennau'r polisi, gan ddyfarnu sgôr i bob elfen o un (llai datblygedig) hyd at dri (datblygedig iawn). Yn Nangosyn 3 gwelir y sgoriau a ddyfarnwyd i ddrafft y Bwrdd Iechyd o'i bolisi rhyddhau yn erbyn y matrics aeddfedrwydd.

Dangosyn 3: Perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn rhestr wirio arfer da y polisi rhyddhau cleifion

Mae'r tabl yn dangos y sgoriau a ddyfarnwyd i bolisi rhyddhau cleifion y Bwrdd Iechyd yn erbyn rhestr wirio arfer da.

| Elfennau a aseswyd | Sgôr | Sylwadau'r archwilydd ynglŷn â'r polisi |
|---|---|---|
| Polisi rhyddhau aml-asiantaeth | 3 | Datblygwyd y polisi mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys staff gweithredol y Bwrdd Iechyd, staff y Cyngor, gofalwyr a staff y trydydd sector. |
| Y polisi wedi'i adolygu o fewn y flwyddyn ddiwethaf | 3 | Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu ac yn diweddaru polisïau mewn cylchoedd treigl o dair blynedd, ac roedd hi'n bryd adolygu'r polisi rhyddhau cleifion yn 2018. Roedd y Bwrdd Iechyd yn adolygu'r polisi ar adeg ein gwaith maes yn rhan o Brosiect Ffocws ar Lif. |
| Cynnwys cleifion/gofalwyr | 3 | Mae'r polisi yn rhoi pwyslais ar gynnwys cleifion a'u teuluoedd drwy gydol y broses ryddhau. Er enghraifft, mae'n crybwyll darparu gwybodaeth a chyngor ar y ffurf fwyaf priodol cyn pen 24 awr ar ôl derbyn y claf.<br>Ceir croesgyfeiriadau priodol i'r fframwaith deddfwriaethol, er enghraifft, mae'r polisi'n cyfleu'n glir os oes gan y claf ofalwr amser- |

[9] Mae ein matrics aeddfedrwydd yn seiliedig ar yr Offeryn Archwilio Hunanasesu ar gyfer Cynllunio i Ryddhau'n Effeithiol, a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd yn 2008.

| Elfennau a aseswyd | Sgôr | Sylwadau'r archwilydd ynglŷn â'r polisi |
|---|---|---|
| | | llawn, y gellid bod angen asesiad arno yntau hefyd. |
| Cyfathrebu | 3 | Cyfeirir at eiriolwyr drwy gydol y polisi. Mae'r polisi'n pwysleisio pa mor bwysig yw cyfathrebu â'r unigolyn, y teulu a gofalwyr. |
| Gwybodaeth | 3 | Mae'r polisi'n manylu ar gamau i sicrhau bod cleifion yn derbyn gwybodaeth glir a chywir am y prosesau rhyddhau, gan gynnwys hysbysu cleifion am Amcan o'r Dyddiad Rhyddhau (ADRh) cyn gynted ag sy'n bosibl. |
| Grwpiau sy'n agored i niwed ee cleifion sy'n ddigartref | 3 | Ceir adran yn y polisi sy'n trafod oedolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys gwybodaeth am bwy a allai gael ei ystyried yn unigolion sy'n agored i niwed, mewn perygl o gael eu cam-drin neu'n ddigartref. Nodir hefyd y bydd gweithiwr cymdeithasol yn cael ei ddynodi ar gyfer claf lle bo'n briodol. |
| Cynllunio'n fuan i ryddhau yn achos derbyniad dewisol | 3 | Yn ôl y polisi, mae'n rhaid dechrau cynllunio i ryddhau o'r ysbyty wrth dderbyn claf i'r ysbyty neu, yn achos derbyniad dewisol, cyn derbyn y claf i'r ysbyty'. |
| Pennir amcan o'r dyddiad rhyddhau cyn pen 24 awr ar ôl derbyn y claf. | 3 | Mae'r polisi'n datgan yn glir y bydd amcan o ddyddiad rhyddhau yn cael ei bennu ar gyfer pob claf cyn pen 24 awr ar ôl eu derbyn. |
| Osgoi Aildderbyn | 1 | Nid yw'r polisi hwn yn cyfeirio o gwbl at yr angen i osgoi aildderbyn cleifion. Er bod y polisi'n pwysleisio bod angen rhyddhau cleifion yn fuan, nid yw'n cydbwyso hynny â'r risg o orfod aildderbyn cleifion. |
| Asesu | 2 | Mae'r polisi'n cyfeirio at y ffaith bod gweithwyr proffesiynol a chleifion ag anghenion yn cael eu cynnwys wrth asesu. Mae'n gofyn i staff ystyried sut mae anghenion wedi codi, a sut mae gwahanol anghenion yn ymadweithio'r naill a'r llall. |
| Rhyddhau o'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys | Amh. | Yn amherthnasol, gan nad yw'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys. |
| Rhyddhau i gartref gofal | 2 | Mae'n trafod rhyddhau oedolion agored i niwed sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, rhyddhau cleifion heb alluedd ac yn nodi y dylai pobl hŷn sydd yn mynd i gartrefi gofal, neu sy'n derbyn gwasanaethau gofal canolraddol fod wedi derbyn asesiad pobl hŷn. |

| Elfennau a aseswyd | Sgôr | Sylwadau'r archwilydd ynglŷn â'r polisi |
|---|---|---|
| | | Sylwer bod y polisi Dewis Llety ar wahân yn cyfleu'n glir mai'r nod wrth ryddhau cleifion yw eu galluogi i ddychwelyd i'w cartref pan fo hynny'n bosibl, ac yn briodol. |
| Cysylltiadau â'r polisi dewis llety | 1 | Nid yw'r polisi'n cyfeirio at y polisi dewis llety. |
| Opsiynau Gofal | 1 | Nid yw'r polisi'n cyfeirio at ystod o opsiynau gofal addas, fel Timau Adnoddau Cymunedol, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau mewn modd diogel ac amserol. |
| Prosesau uwchgyfeirio | 1 | Ni fanylir ar unrhyw brosesau uwchgyfeirio yn y polisi os ceir oedi cyn rhyddhau, neu os oes perygl o oedi cyn rhyddhau.<br>Ceir cynllun uwchgyfeirio ar wahân, ond ni cheir unrhyw groesgyfeiriadau na chysylltiadau rhwng y naill a'r llall. |
| Protocolau Rhyddhau Hygyrch | 1 | Mae'r polisi dewis llety yn cynnwys siart lif cynllunio i ryddhau ar gyfer rhyddhau cleifion i gartref gofal. Fodd bynnag, nid yw'r siart yn eang iawn, nid yw wedi'i chynnwys yn y polisi rhyddhau, ac nid oes cyfeiriad ati yn y polisi rhyddhau ychwaith. |

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o bolisi rhyddhau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, 2017

30 O'r 15 o elfennau y buom yn eu hasesu sydd yn berthnasol i Bowys, enillodd polisi'r Bwrdd Iechyd sgôr o '3' am wyth elfen. Gallai'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu'r polisi rhyddhau o ran yr elfennau hynny a gafodd '1' fel sgôr, er enghraifft drwy gynnwys croesgyfeiriadau priodol i'r polisi dewis llety a'r polisi uwchgyfeirio. Mae'r polisi hefyd yn brin o ganllawiau i gefnogi cynlluniau rhyddhau, er enghraifft, nid yw'n cynnwys unrhyw lwybrau rhyddhau ffurfiol na rhestrau gwirio rhyddhau. Nodir yn yr polisi rhyddhau fod angen cynnal archwiliadau cydymffurfio, ond nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal archwiliad cydymffurfio yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.

31 Cymeradwywyd y polisi dewis llety ym mis Chwefror 2016, ac mae'n cyflenwi'r polisi rhyddhau. Cyflëir yn glir yn y ddau bolisi mai eu nod yw lleihau'r amser y mae cleifion yn ei dreulio yn yr ysbyty heb fod angen, yn disgwyl cael eu rhyddhau oddi yno. Yn ôl y polisi dewis llety, mae'n rhaid ystyried mai'r prif nod bob tro wrth gynllunio i ryddhau cleifion o'r ysbyty yw galluogi cleifion i ddychwelyd i'w cartref, pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl neu'n briodol.

32 Dylid diffinio'n glir y rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer rhyddhau cleifion mewn modd diogel ac amserol mewn polisïau a gweithdrefnau. Gwneir hyn fel bo modd gwneud defnydd effeithiol o sgiliau a gwybodaeth, ac fel bo modd dwyn staff i gyfrif am eu

rôl yn y broses. Yn y polisi rhyddhau dylid hefyd bennu'r safonau ar gyfer yr holl staff sy'n gyfrifol am ryddhau cleifion.

33 Yn y Bwrdd Iechyd, gwelsom fod adran o'r polisi rhyddhau yn cynnwys amlinelliad cryno o rolau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol a thimau sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion. Mae hyn yn cynnwys staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, tîm amlddisgyblaeth a chydgysylltwyr gofal/nyrs gyfrifol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nid yw'r disgrifiadau yn y polisi rhyddhau yn fanwl iawn. Er enghraifft, nid yw'n trafod sut y dylai staff uwchgyfeirio problemau yn gysylltiedig â rhyddhau cleifion nac at bwy y dylid gwneud hynny.

## Hyd yma, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu a gweithredu llwybrau rhyddhau ffurfiol i gefnogi cynlluniau rhyddhau.

34 Dylid ystyried cynllunio i ryddhau o'r ysbyty yn broses barhaus a gynhelir bob dydd o'r wythnos. Er na fydd yr holl staff sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau'r claf ar gael bob amser, dylai'r gwaith cyfathrebu, cynllunio a chydgysylltu barhau. Gall llwybrau rhyddhau diffiniedig sy'n nodi'r gyfres o gamau y mae angen eu cymryd ac amseriad ymyraethau gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd ar gyfer grwpiau diffiniedig o gleifion, yn enwedig rhai ag anghenion cymhleth, fod o gymorth i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau mewn modd diogel ac amserol.

35 Yn rhan o'n gwaith archwilio, buom yn edrych ar y prif lwybrau rhyddhau sydd ar waith ledled Cymru. Aseswyd yr eglurder ynghylch dibenion y llwybrau a'r defnydd ohonynt ar draws sefydliadau, a oedd llwybrau wedi'u datblygu gyda phartneriaid o'r awdurdod lleol, ac a oedd algorithmau, dogfennau safonedig a mesurau ansawdd i gefnogi'r llwybrau.

36 Ni chawsom gofnod o lwybrau rhyddhau gan y Bwrdd Iechyd a ddangosai'r dilyniant o gamau yr oedd angen eu cymryd i ryddhau cleifion i'w cyrchfan briodol mewn modd diogel, felly ni allwn eu hadolygu. Bydd llwybrau rhyddhau fel arfer ar ffurf siart lif neu dabl, byddant yn cynnwys dibenion clir a gwybodaeth am y gyrchfan rhyddhau ac, yn ddelfrydol byddant:

- yn cydnabod logisteg trafnidiaeth neu drosglwyddo;
- yn berthnasol bob awr o'r dydd, a phob dydd o'r flwyddyn;
- wedi'u datblygu gyda sefydliadau partner (yr awdurdod lleol a chyrff y GIG);
- wedi'u cefnogi gan ddogfennau rhyddhau ac asesu cyffredinol;
- yn cynnwys prosesau atgyfeirio clir;
- yn cynnwys safonau cytunedig ar gyfer: amseroedd ymateb ar gyfer asesu anghenion, amseroedd ymateb ar gyfer darparu gwasanaeth ac ansawdd a diogelwch; a
- yn cynnwys safonau ar gyfer rhannu gwybodaeth â staff clinigol/gofal yn y gymuned ee, llythyrau rhyddhau.

37 Y dull confensiynol o ryddhau cleifion, yn enwedig henoed bregus, yw cynnal cyfres o asesiadau yn y ward er mwyn canfod pa fath o gymorth y gallai fod arnynt

ei angen gartref. Cwblheir yr asesiadau hyn fel arfer ar ôl datgan bod y claf yn 'feddygol' iach i'w ryddhau. Cyn gynted ag y bydd asesiadau wedi'u cwblhau, bydd cleifion wedyn yn cael eu rhyddhau pan fydd yr holl wasanaethau cymorth priodol neu'r holl adnoddau eraill wedi'u trefnu, a allai gymryd cryn dipyn o amser. Gelwir hyn yn llwybr neu'n fodel 'asesu i ryddhau'.

38 Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn annog llwybr neu fodel 'rhyddhau i asesu'[10] [11]. Mae hynny'n golygu rhyddhau cleifion i fynd adref pan fônt yn 'feddygol' iach i'w rhyddhau, a phan nad oes angen gwely mewn ysbyty arnynt mwyach. Ar y diwrnod rhyddhau, bydd aelodau o'r tîm iechyd a gofal cymdeithasol priodol wedyn yn cynnal asesiad gartref o anghenion cymorth cleifion. Bydd hyn yn galluogi cleifion i dderbyn y lefel gywir o ofal a chymorth gartref mewn amser real, ac yn cael gwared â'r angen i gadw cleifion mewn gwely yn yr ysbyty tra bônt yn aros i asesiadau gael eu cynnal ac i wasanaethau gael eu trefnu.

39 Canfu'r Uned Gyflawni mai prin oedd y defnydd o lwybrau 'rhyddhau i asesu', ac argymhellodd y dylai sefydliadau'r GIG eu gweithredu. Gwelsom fod hanner (4 o 8) o sefydliadau'r GIG wedi gweithredu model 'rhyddhau i asesu' er nad oedd y model ond wedi cael ei weithredu ar safleoedd ysbyty penodol mewn rhai sefydliadau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal heb gyflwyno llwybr 'rhyddhau i asesu', ond mae'n bwriadu ei gyflwyno drwy'r Prosiect Ffocws ar Lif.

[10] Llywodraeth Cymru, **Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned - Rhaglen Strategol ar Gyfer Cyflenwi,** 2010

[11] Llywodraeth Cymru, **Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy**, 2011

## Mae'r adnoddau sydd wedi'u neilltuo i gefnogi cynlluniau rhyddhau yn gymharol brin, ac nid yw'r adnoddau hynny ond ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener. Yn ogystal â hyn, mae'r hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau, a'r wybodaeth am bolisïau rhyddhau, yn wael.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi neilltuo rhai adnoddau i gefnogi cynlluniau rhyddhau, ond nid yw'r rhain ond ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener.

#### Mae Tîm Cyswllt Rhyddhau'r Bwrdd Iechyd yn llai o'i gymharu â thimau mewn byrddau iechyd eraill, ac yn debyg i'r timau hynny, nid yw ond yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener.

40 Tîm cyswllt rhyddhau yw tîm arbenigol sy'n anelu i gefnogi proses trosglwyddo gofal ddiogel a di-dor ar gyfer cleifion sydd yn symud o'r ysbyty i ddarpariaeth gwasanaeth yn y gymuned. Gall y timau hyn fod yn ffynhonnell werthfawr o gefnogaeth a gwybodaeth i staff ward, a chynnig cymorth i hwyluso achosion rhyddhau cymhleth.

41 Gofynnwyd am wybodaeth gan bob sefydliad o fewn y GIG ynghylch a ydynt yn gweithredu gwasanaethau cyswllt ar gyfer rhyddhau, ac ynghylch cwmpas y gwasanaethau hynny. Ledled Cymru, gwelsom fod holl sefydliadau'r GIG, ac eithrio Ymddiriedolaeth GIG Felindre, yn cynnal un neu fwy o dimau cyswllt ar gyfer rhyddhau. Mae'r holl dimau'n gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod oriau swyddfa, a'r amser gorffen hwyraf yw 5.30pm. Dywedodd saith o'r 15 o dimau eu bod yn rheoli achoson rhyddhau syml a chymhleth

42 Mae gan y Bwrdd Iechyd dîm sefydledig o Gydgysylltwyr Trosglwyddo Gofal (CTGau). Mae CTGau yn helpu cleifion sy'n cael eu trin yn ysbytai cymunedol Powys, a hefyd yn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth y Bwrdd Iechyd cyfagos, i fynd adref, i ysbyty cymunedol neu i gartref gofal, a hefyd yn rheoli'r broses ailalluogi gartref. Nid yw'r swyddogaeth CTGau yn wasanaeth sydd yn gweithredu ar ei ben ei hun; yn hytrach, y mae'n cydweithio â thimau amlddisgyblaethol ar draws yr ysbytai cymunedol a'r Ysbytai Cyffredinol Dosbarth er mwyn atal sefyllfa lle bydd cleifion yn llenwi gwelyau ysbytai cymunedol heb fod angen.

43 Fel arfer, bydd timau cyswllt rhyddhau yn cynnwys staff nyrsio ond, er mwyn cael rheolaeth well ar achosion rhyddhau cymhleth, dylai'r timau fod yn amlddisgyblaethol. Yn Nangosyn 4 gwelir y gwahanol broffesiynau o fewn timau cyswllt rhyddhau ledled Cymru. Dengys y data fod llai na hanner y timau yn amlddisgyblaethol a'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u harwain gan nyrsys. Mae timau

cyswllt rhyddhau yn amrywio o ran maint rhwng dau aelod staff cyfwerth ag amser llawn (CALl) a 29 aelod o staff CALl, gyda'r timau mwy yn gweithio ar draws amryw o safleoedd ysbyty. Roedd y timau'n cynnwys saith aelod CALl o staff ar gyfartaledd.


44 Ni chawsom wybodaeth am y tîm CTG, er inni ofyn am yr wybodaeth honno. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym fod 5.5 aelod o staff CALl yn gweithio yn y tîm CTG, sef cynnydd o 3.5 aelod staff CALl yn 2015-16. Mae'r tîm CTG yn cynnwys 0.2 aelod staff CALl a ariennir ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i weithio gyda staff Ysbyty Bronglais er mwyn dod â chleifion i Bowys pan fydd hynny'n briodol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dweud bod gwaith partneriaeth trawsffiniol yn her, ac y bydd camau fel ariannu'r swydd hon ar y cyd, ynghyd â thrafodaethau drwy Gydweithfa Gofal Iechyd Canolbarth Cymru, o gymorth i fynd i'r afael â'r her hon.[12]

45 Er mai bach yw'r tîm, mae ei gylch gorchwyl yn debyg i'r hyn a geir mewn timau mewn Byrddau Iechyd eraill. Dywedodd staff o'r tîm CTG wrthym eu bod yn teimlo dan bwysau oherwydd y llwyth gwaith. Mynegodd rhai aelodau o staff bryder y gallai absenoldeb salwch hirdymor neu swyddi gwag o fewn y tîm achosi straen sylweddol a chyfyngu ar allu'r tîm i weithredu'n effeithiol. Teimlai rhai aelodau tîm CTG nad oes ganddynt ddigon o amser yn aml i fynychu cyfarfodydd timau amlddisgyblaethol. Yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-20 nodir ei ymrwymiad i werthuso rôl CTGau yn ystod 2017-18, a gallai fod angen iddo ystyried capasiti'r tîm wrth gynnal y gwerthusiad.

[12]Nod Grŵp Cydweithredol Canolbarth Cymru ar gyfer Gofal Iechyd yw gweithredu'r argymhellion a gafwyd yn sgil adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i nodi problemau a datrysiadau posib er mwyn darparu gwasanaethau gofal iechyd diogel a chynaliadwy sydd ynn hygyrch ac o ansawdd uchel, ac sydd yn cyd-fynd orau ag anghenion penodol trigolion Canolbarth Cymru. Cyhoeddwyd yr adolygiad yn 2014.

Dangosyn 4: gwahanol aelodau staff proffesiynol a ddyrennir i Dimau Cyswllt Rhyddhau ar 30 Medi 2016

Mae'r siart yn dangos bod timau cyswllt rhyddhau ledled Cymru wedi'u harwain yn bennaf gan nyrsys, ac mai ychydig iawn o dimau amlddisgyblaethol a geir.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am Dimau Cyswllt Rhyddhau, 2017[13]

46 Nid yw tîm CTC y Bwrdd Iechyd yn amlddisgyblaethol, nac yn aml-asiantaeth, ond mae'r tîm hwnnw wedi'i arwain gan nyrs. Drwy ddefnyddio cyfran o arian y Gronfa Gofal Integredig, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd brosiect peilot dros y gaeaf yn 2016-17 lle defnyddiwyd Therapyddion Galwedigaethol yn nhîm y cydgysylltydd trosglwyddo gofal, i gefnogi'r cysylltiad rhwng ysbytai ac ailalluogi. Roedd y trefniant hwn yn gweithio'n dda yn ôl y staff, ond ni pharhawyd â'r cynllun yn 2017-18. Ceir Nyrs Cyswllt Ysbyty sydd yn cysylltu Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion Powys â'r Ysbytai Cyffredinol Dosbarth sy'n gwasanaethu Powys, a gallwch ofyn am gael siarad ag ef/hi.

47 Cyfanswm cost 13 o'r 15 o Dimau Cyswllt Rhyddhau oedd £2.9 miliwn, ac roedd costau'r timau'n amrywio rhwng £43,000 a £692,000. Ni roddodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ddata i ni ar gostau tîm y CTG. Ni allwn felly gymharu'r gost hon â'r gost gyfartalog fesul Tîm Cyswllt Rhyddhau o £244,000 ar draws Cymru.

48 Oherwydd bylchau yn yr wybodaeth am gostau staffio, gweithgarwch a gwasanaethau, mae'n anodd sefydlu gwerth cymharol am arian y timau cyswllt

[13]Mae'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru yn gweithredu Timau Cyswllt Rhyddhau. Mae tri bwrdd iechyd - Byrddau Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Hywel Dda a Betsi Cadwaladr - yn gweithredu timau ar wahân ar gyfer pob safle ysbyty. Cawsom 15 o ffurflenni data oddi wrth Dimau Cyswllt Rhyddhau, er nad oedd yr holl ffurflenni data yn gyflawn.

rhyddhau oddi mewn i sefydliadau'r GIG/yng ngwahanol sefydliadau'r GIG. Dim ond pedwar o'r pymtheg Tîm Cyswllt Rhyddhau ar draws Cymru a ddarparodd yr wybodaeth y gwnaethom ofyn amdani. Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan y pedwar tîm hwn, buom yn cymharu nifer yr achosion o ryddhau â nifer yr aelodau staff CALl. Roedd nifer yr achosion o ryddhau fesul aelod staff CALl yn amrywio rhwng 50 a 250; y cyfartaledd oedd 117 o achosion o ryddhau fesul aelod staff CALl. Ni chawsom wybodaeth am nifer yr achosion o ryddhau yr oedd tîm CTG y Bwrdd Iechyd yn eu rheoli, felly ni allwn wneud unrhyw sylwadau ynghylch capasiti'r tîm.

49 Gofynnwyd i Dimau Cyswllt Rhyddhau ddisgrifio pa mor aml yr oeddent yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi cynlluniau rhyddhau. Yn Atodiad 4 gwelir crynodeb o'r mathau o weithgareddau a gyflawnir gan Dimau Cyswllt Rhyddhau ledled Cymru. Yn y Bwrdd Iechyd, mae tîm y CTG yn adnodd cymharol fach ond mae'n dal yn cyflawni yr un amrywiaeth o weithgareddau â gwasanaethau cyswllt rhyddhau eraill. Er enghraifft, bydd tîm y CTG bob amser yn dilysu data Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal ac yn rhoi'r newyddion diweddaraf i reolwyr gwelyau ynghylch rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Bydd y tîm yn aml yn cyflawni'r gweithgareddau canlynol, sydd yn cyd-fynd yn fras â thimau cyswllt rhyddhau eraill:

- cymryd rhan yn rhawdiau'r bwrdd ac yng nghyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth;
- cynorthwyo staff i adnabod cleifion y gallai eu rhyddhau fod yn broses gymhleth;
- cysylltu â chyrff cyhoeddus eraill i rwyddhau'r broses o ryddhau'n llwyddiannus o'r ysbyty, a lleihau'r achosion o ail-dderbyn hyd yr eithaf;
- cynnig un man cyswllt ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y broses ryddhau;
- cynnig cyngor ar opsiynau tai; a
- chyfeirio cleifion a'u teuluoedd i dderbyn cyngor.

50 Yn ogystal â hyn, bydd y tîm weithiau'n cyflawni'r gwaith canlynol:

- sicrhau bod cynlluniau rhyddhau unigol ar waith i gleifion ag anghenion rhyddhau cymhleth;
- gweithio gyda rheolwyr gweithredol i ddatblygu mesurau perfformiad ar gyfer rhyddhau; a
- darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff clinigol ar ryddhau cleifion.

51 Dywedodd staff wrthym nad oedd tîm y CTG wedi cael ei werthuso ers ei sefydlu dros saith mlynedd yn ôl. Yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-20, nodir ei ymrwymiad i werthuso rôl CTGau yn ystod 2017-18. Yn ogystal â hyn, ar adeg ein gwaith archwilio, cynlluniodd y Bwrdd Iechyd i ddiwygio'r diffiniadau o rolau ac anghenion hyfforddi tîm y CTG, yn rhan o'i Brosiect Ffocws ar Lif.

## Nid oes lolfeydd rhyddhau ar gael ar hyn o bryd.

52 Gall lolfa ryddhau gefnogi cynlluniau rhyddhau effeithiol a llif cleifion drwy ryddhau gwelyau'n brydlon fel bo modd derbyn cleifion eraill. Mae lolfa ryddhau yn cynnig lle addas i gleifion aros i berthnasau neu drafnidiaeth yr ysbyty eu casglu, neu i aros am ddosbarthu eu meddyginiaeth. Holwyd sefydliadau'r GIG ynghylch eu cyfleusterau o ran lolfeydd rhyddhau. Ar draws Cymru, gwelsom fod pob bwrdd iechyd, ar wahân i Bowys, yn gweithredu lolfeydd rhyddhau yn eu hysbytai acíwt.

53 Dywedodd rhai aelodau o staff wrthym y byddai'n ddefnyddiol cael lolfeydd rhyddhau ar draws ysbytai cymunedol y Bwrdd Iechyd. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw gynlluniau i gyflwyno lolfeydd rhyddhau yn y dyfodol agos, oherwydd diffyg lle mewn ysbytai cymunedol, ond bydd staff yn aml yn gwneud defnydd o ystafelloedd dydd mewn ysbytai i gefnogi llif cleifion pan fydd angen gwelyau cymunedol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella mynediad at wybodaeth am wasanaethau cymunedol ond ceir diffyg hyfforddiant ar gynlluniau rhyddhau, ac mae mwy o waith i'w wneud er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch polisïau rhyddhau

54 At ei gilydd, tîm y ward sy'n gyfrifol am asesu cleifion a chynllunio i'w rhyddhau. Dylai staff y ward gymryd rhan yn y broses cynllunio i ryddhau a'i hystyried yn rhan o'r continwwm gofal, a dylid dwyn staff ward a rheolwyr gweithredol i gyfrif am gynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol. Mae angen i'r staff feddu ar ddealltwriaeth dda o bolisïau a llwybrau rhyddhau, mynediad at lefelau priodol o hyfforddiant, a gwybodaeth am yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i'r gymuned er mwyn cefnogi'r broses o ryddhau cleifion.

### Nid oes hyfforddiant penodol i'r staff ar gynllunio i ryddhau cleifion ac mae'r wybodaeth am bolisïau rhyddhau yn wael

55 Yn rhan o'n gwaith archwilio, cyfarfuom â staff ward i siarad am ystod o faterion yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion. Roedd y staff y cyfarfuom â hwy yn deall yn glir beth oedd eu rôl o ran cynllunio i ryddhau cleifion. Er bod y staff yn ymwybodol o'r polisi dewis llety, nid oeddent yn ymwybodol o'r polisi rhyddhau cleifion, nac o'r gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer rhyddhau cleifion. Er bod y polisi rhyddhau yn cael ei adolygu ar adeg ein gwaith archwilio, byddem yn disgwyl i staff ward fod yn ymwybodol o'r polisi presennol a gweithredu'r polisi hwnnw. Byddem hefyd yn disgwyl i staff ward wybod bod y polisi'n cael ei adolygu. Nid oedd y staff ward y cyfarfuom â hwy ychwaith yn ymwybodol o unrhyw lwybrau rhyddhau ysgrifenedig, ond roeddent yn tybio bod y llwybrau hynny'n bodoli.

56 Dylai staff rheng flaen dderbyn hyfforddiant rheolaidd sy'n briodol i'w rôl yn y broses ryddhau. Dylai'r hyfforddiant hwn fod yn rhan o raglenni ymsefydlu, ac o ddiweddariadau rheolaidd ar bynciau penodol, yn enwedig pan fydd polisïau cysylltiedig yn ddibynnol ar asesu a chynllunio gofal. Yn ddelfrydol, darperir hyfforddiant ar sail aml-asiantaeth ac/neu ar sail aml-broffesiwn er mwyn sicrhau bod cynllunio i ryddhau cleifion yn fusnes i bawb.

57 Nodir yn y polisi rhyddhau y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ddarparu hyfforddiant i sicrhau bod y staff yn gweithredu'r polisi'n effeithiol, ond mae ein gwaith archwilio yn awgrymu nad yw'r rhan fwyaf or staff wedi derbyn yr hyfforddiant hwnnw. Ni allai staff ward na CTGau gofio derbyn unrhyw hyfforddiant penodol ar y broses cynllunio i ryddhau cleifion, na'r polisïau'n gysylltiedig â hynny. Yn fwy diweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno hyfforddiant arwain gorfodol i'w uwch nyrsys. Nod yr hyfforddiant yw cynorthwyo uwch nyrsys i feithrin sgiliau arwain, cynyddu'r gydnabyddiaeth o'u rôl ym maes gofal cleifion a bod yn hyderus wrth reoli sgyrsiau anodd â chleifion a'u teuluoedd. Er bod hwn yn gam cadarnhaol, nid yw'r hyfforddiant ond yn cynnwys cyfran fach o'r staff sydd yn gweithio ar y wardiau. Mae angen meithrin hyder yr holl staff ward, yn ogystal â thîm y CTG, wrth gymhwyso'r egwyddorion a'r prosesau sy'n gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion.

58 Yn Nangosyn 5 gwelir bod llai na hanner sefydliadau'r GIG ledled Cymru sy'n cynnwys cynlluniau rhyddhau mewn rhaglenni ymsefydlu nyrsys, a bod mwy na hanner ohonynt yn cynnig hyfforddiant gloywi rheolaidd. Yn y Bwrdd Iechyd, nid yw'r rhaglenni ymsefydlu ar gyfer staff nyrsio a meddygol yn cynnwys hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion, ac nid ydynt ychwaith yn derbyn hyfforddiant gloywi.

### Dangosyn 5: argaeledd hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion ar gyfer staff nyrsio

Dengys y tabl pa sefydliadau yn y GIG sydd yn darparu hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o raglenni ymsefydlu nyrsys, ac a ddarperir hyfforddiant gloywi rheolaidd i'r staff nyrsio.

| Sefydliad y GIG | Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion wedi'i gynnwys mewn rhaglenni ymsefydlu nyrsys ar gyfer dechreuwyr newydd | Hyfforddiant gloywi ar gynllunio i ryddhau cleifion wedi'i ddarparu'n rheolaidd i nyrsys[1] |
|---|---:|---:|
| Abertawe Bro Morgannwg | Ie | Ie |
| Aneurin Bevan | Nage | Nage |
| Betsi Cadwaladr | | |
| • Ysbyty Gwynedd | Ie | Ie |
| • Wrecsam Maelor | Ie | Ie |
| • Glan Clwyd | Ie | Nage |
| Caerdydd a'r Fro | Nage | Ie |
| Cwm Taf | Nage | Ie |

| Sefydliad y GIG | Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion wedi'i gynnwys mewn rhaglenni ymsefydlu nyrsys ar gyfer dechreuwyr newydd | Hyfforddiant gloywi ar gynllunio i ryddhau cleifion wedi'i ddarparu'n rheolaidd i nyrsys[1] |
|---|---|---|
| Hywel Dda<br>• Llwynhelyg<br>• Ceredigion<br>• Caerfyrddin | <br>Ie<br>Nage<br>Nage | <br>Nage<br>Nage<br>Ie |
| **Powys** | **Nage** | **Nage** |
| Felindre | Ie | Ie |
| [1]Hyfforddiant gloywi wedi'i ddarparu o leiaf bob blwyddyn, neu ddwywaith y flwyddyn i'r staff nyrsio | | |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (Gweler Troednodyn 8)

Mae newidiadau cadarnhaol yn cael eu cyflwyno i wella prosesau rhyddhau ond mae llawer o waith i'w wneud er mwyn i staff fod yn hyderus wrth reoli achosion rhyddhau cymhleth.

59 Yn ei adolygiad, gwelodd yr Uned Gyflawni ddiwylliant ledled Cymru lle'r oedd pobl yn gyndyn o gymryd risg, lle'r oedd y staff yn siarad yn agored am ddiwylliant 'cwtsh'[14] a'r ffaith nad oedd digon o amser yn cael ei neilltuo i reoli'r broses ryddhau. Dywedodd rhai aelodau o staff mai'r hyn a oedd wrth wraidd yr amharodrwydd hwn i gymryd risg oedd bod llawer o gleifion yn byw mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell iawn. Roedd y staff felly'n pryderu am les cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Dywedodd eraill wrthym eu bod yn teimlo'n anghyffyrddus wrth drefnu i ryddhau cleifion i gartrefi gofal neu nyrsio, gan fod cleifion yn aml yn cael eu lleoli ymhell o'u cartrefi a'u teuluoedd oherwydd prinder llefydd.

60 Canfu'r Uned Gyflawni nad oedd rhyw lawer o dystiolaeth yng nghofnodion cleifion bod staff wedi trafod disgwyliadau rhyddhau gyda'r cleifion. Er bod y pamffled rhyddhau cleifion a gyflwynwyd i ni yn ymddangos fel pe bai wedi'i lunio'n dda ac yn gynhwysfawr, nid oedd y staff y buom ni yn siarad â hwy yn ei ddefnyddio'n rheolaidd wrth ymdrin â chleifion. Nodir dyddiad derbyn y claf a'r Amcan o'r Dyddiad Rhyddhau yn glir ar y daflen. Mae'n esbonio'r broses ryddhau wrth y darllenydd ac yn cyfleu'n glir na all cleifion aros yn yr ysbyty os nad oes angen iddynt wneud hynny am resymau meddygol mwyach. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau

[14]Disgrifiodd yr Uned Gyflawni ddiwylliant cwtsh lle'r oedd rhai aelodau staff yn amharod i ryddhau cleifion i'w cartrefi eu hunain, oherwydd eu bod yn tybio y gallai hynny achosi risg i'r cleifion. Er mai caredigrwydd sydd wrth wraidd hyn, mae'n bosib nad yw'r staff yn gweithredu er budd pennaf y cleifion.

bod y ddogfen hon yn cael ei defnyddio'n gyson er mwyn rhoi gwybodaeth i gleifion.

61 Yn dilyn adolygiad yr Uned Gyflawni, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd ddigwyddiad ym mis Rhagfyr 2016 i adrodd y canfyddiadau'n ôl a thrafod y ffyrdd gorau o ymateb iddynt. Ffocws y digwyddiad oedd cynyddu dealltwriaeth y staff o'r heriau o flaen y Bwrdd Iechyd wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Gwelsom fod consensws ymhlith staff ar lefelau strategol a gweithredol fod y ffocws ar gynllunio i ryddhau wedi cynyddu ers y digwyddiad, a bod hynny wedi arwain at rai newidiadau cadarnhaol, gan gynnwys:

- diweddariad ynghylch y Prosiect Ffocws ar Lif a fabwysiadodd argymhellion yr Uned Gyflawni yn rhan o'i gynllun gweithredu;
- cyflwyno byrddau llif, sy'n cynnig templed i staff ward arddangos ystod benodol o wybodaeth yn gyhoeddus ar gyfer pob claf, ac sy'n galluogi staff i groesgyfeirio'n rhwyddach; a
- phenderfynu gweithio tuag at darged penodol ar ffurf arhosiad cyfartalog o 21 diwrnod, yn hytrach na gweithio tuag at darged gwella syml (ond yn ôl Dangosyn 11 gallai'r Bwrdd Iechyd fod yn fwy uchelgeisiol).

62 Roedd y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu'r camau hyn ar adeg ein gwaith archwilio ac roedd hi'n rhy fuan i wneud sylwadau ynghylch eu heffaith. Fodd bynnag, roedd y staff yn hyderus bod cynyddu'r ffocws ar gynllunio i ryddhau cleifion yn cael effaith gadarnhaol. Er enghraifft, cyflwynwyd byrddau llif yn yr holl ysbytai cymunedol erbyn mis Mawrth 2017, ac roedd safbwyntiau'r staff ynghylch effaith y byrddau hynny yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedwyd eu bod yn annog perchnogaeth staff ward ar gontinwwm gofal y claf, a'u bod yn gwella gwaith amlddisgyblaeth gan leihau'r angen am atgyfeiriadau papur.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau yn gysylltiedig ag argaeledd gwybodaeth am wasanaethau cymunedol i gefnogi'r broses ryddhau

63 Mae cael dealltwriaeth dda o ystod a chapasiti gwasanaethau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol yn elfen bwysig wrth sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau mewn modd amserol. Dylai cyrff iechyd ddal gwybodaeth gyfredol am y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael a all helpu cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Gall y gwasanaethau hyn fod ar gael drwy sefydliadau'r GIG, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector. Gofynnwyd i gyrff iechyd pa fathau o wybodaeth yr oeddent yn ei chasglu am wasanaethau cymunedol. Yn Nangosyn 6 gwelir mai ychydig o sefydliadau sy'n casglu gwybodaeth am wasanaethau cymunedol a ddarperir gan sefydliadau eraill y GIG ac opsiynau tai. Mae'r nifer sy'n casglu gwybodaeth am amseroedd aros ar gyfer asesu anghenion ac amseroedd aros cyn i wasanaethau gychwyn hefyd yn gymharol brin,

Dangosyn 6: nifer y cyrff iechyd a adroddodd eu bod yn casglu ystod o wybodaeth am wasanaethau cymunedol

Mae'r tabl yn dangos faint o gyrff iechyd sy'n casglu ystod o wybodaeth am wasanaethau cymunedol.

| | Ystod y gwasana-ethau | Argaeledd gwasanaet-hau | Meini Prawf Cymhwy-stra | Y broses atgyfeirio | Amser aros ar gyfer asesiad anghenion | Amser aros i wasanaethau gychwyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau cymunedol y Bwrdd Iechyd ei hun | 8 | 8 | 9 | 9 | 4 | 4 |
| Gwasanaethau cymunedol a ddarperir gan gyrff eraill y GIG | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 2 |
| Gwasanaethau gofal cymdeithasol | 9 | 9 | 9 | 10 | 6 | 3 |
| Y Trydydd Sector | 10 | 8 | 10 | 8 | 3 | 2 |
| Opsiynau tai | 4 | 2 | 4 | 6 | 2 | 2 |
| Y Sector Annibynnol ee, gwelyau mewn cartrefi gofal | 7 | 6 | 9 | 9 | 2 | 2 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (Gweler Troednodyn 8)

64 Gofynnwyd i staff ward faint yr oeddent yn ei wybod am yr ystod o wasanaethau cymunedol i gefnogi cleifion wrth eu rhyddhau. Dywedodd staff ward wrthym fod ganddynt ddealltwriaeth gyffredinol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned, a bod y ddealltwriaeth honno'n cael ei datblygu a'i chadw'n gyfredol drwy gyswllt rheolaidd rhwng prif nyrsys ward a gwasanaethau fel ailalluogi a gofal cartref. Teimlai staff nyrsio'n hyderus eu bod yn gallu cael gwybodaeth gan staff therapi a thîm y CTG os oedd angen, gan fod y naill garfan a'r llall o staff yn casglu gwybodaeth gyfredol am wasanaethau cymunedol drwy eu rolau perthynol. Fodd bynnag, nid yw'n rhwydd cael gafael ar staff therapi ar yr holl wardiau bob amser, ac mae capasiti'r CTG yn brin. Ni wyddai'r staff yn glir sut i gyrchu gwybodaeth gyfredol am wasanaethau cymunedol, er enghraifft drwy gyfeiriadur gwasanaethau

cymunedol. Crybwyllodd rhai ohonynt wefan 'Dewis Cymru' [15] ond dywedwyd nad oedd y wefan honno wedi'i datblygu'n ddigonol eto

65 Mae PAVO yn llunio rhestr o wasanaethau gwirfoddol hygyrch, ond nid yw'n cynnwys yr holl wasanaethau nac ychwaith yn gysylltiedig â'r holl bartneriaid perthnasol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod diffyg mynediad at gronfa ddata gynhwysfawr a chyfredol yn wendid o safbwynt y staff. Yn ddiweddar, datblygodd y Bwrdd Iechyd wasanaeth Llinell Uniongyrchol i Bowys, sy'n gweithredu fel Un Man Cyswllt i blant, oedolion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd, ond nid yw'r gwasanaeth hwn yn cynnwys yr holl wasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ymroi i weithio gyda sefydliadau fel PAVO a Dewis Cymru i gydgysylltu gwybodaeth a darparu cronfa ddata effeithiol i staff a chleifion.

# Er bod llinellau atebolrwydd clir, ceir cyfyngiadau ar drefniadau monitro perfformiad cynlluniau rhyddhau cleifion ac mae'r perfformiad yn erbyn mesurau allweddol yn parhau i fod yn heriol

## Ceir llinellau atebolrwydd clir a threfniadau rheolaidd i fonitro gweithrediad perfformiad cynlluniau rhyddhau, sy'n cynnwys partneriaid

66 Er mwyn i'r trefniadau fod yn effeithiol, mae angen cael llinellau atebolrwydd clir, a threfniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau ffocws parhaus i wella prosesau rhyddhau a chynnal llif cleifion drwy ysbytai.

67 O fewn y Bwrdd Iechyd, nodir cyfrifoldebau gweithredol dros gynllunio i ryddhau cleifion yn y polisi rhyddhau a'r polisi dewis llety. Rheolwyr y Tîm Clinigol Integredig sy'n atebol am gynllunio i ryddhau cleifion o ddydd i ddydd. Bydd unrhyw broblemau y mae angen eu huwchgyfeirio yn gysylltiedig â rhyddhau cleifion yn cael eu hadrodd wrth ddau Reolwr Cyffredinol Ardal. Bydd Rheolwyr Cyffredinol Ardal wedyn yn adrodd wrth y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Gofal yn y Gymuned/y Dirprwy Brif Weithredwr, sef arweinydd gweithredol cynllunio i ryddhau cleifion (yn rhan o'r gwaith i wella llif cleifion).

68 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ffonio awdurdodau lleol a phartneriaid eraill allweddol yn ddyddiol i drafod rheoli gwelyau. Yn ystod y galwadau hynny, byddant yn rhannu ac yn trafod gwybodaeth am gleifion penodol sy'n disgwyl cael eu rhyddhau. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnal cyfarfodydd wythnosol ar Oedi cyn Trosglwyddo Gofal, sy'n cynnwys Rheolwyr Timau Clinigol Integredig, CTGau, prif nyrsys ward a

[15] Gwefan yw Dewis Cymru a ddatblygwyd er mwyn helpu pobl i gael hyd i wybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau a all eu helpu i gymryd rheolaeth dros eu llesiant eu hunain.

chynrychiolwyr o'r gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth broceru. Bydd y cyfarfodydd wythnosol hyn ar oedi cyn trosglwyddo gofal, a gadeirir gan y Pennaeth Nyrsio, yn gyfle i'r staff drafod achosion sy'n arbennig o heriol, ac yn galluogi staff i gydweithio er mwyn datrys materion. Bydd y Pennaeth Nyrsio wedyn yn uwchgyfeirio unrhyw faterion sy'n weddill o'r alwad hon i'r Rheolwyr Cyffredinol Ardal, a byddai unrhyw gamau uwchgyfeirio eraill ar ffurf y strwythur uchod.

69 Yn rhan o'n gwaith asesu strwythuredig yn 2016, gofynnwyd i aelodau bwrdd ar draws y saith bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG Felindre i ba raddau yr oeddent yn cytuno â sawl datganiad ynghylch llif cleifion a chynllunio i ryddhau cleifion. Canfu ein harolwg o aelodau bwrdd fod 6 o 12 o aelodau bwrdd (50%) a ymatebodd naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn craffu'n rheolaidd ar effeithiolrwydd cynlluniau rhyddhau. Gellir cymharu hyn â 56% ar draws Cymru.

70 Mae cynlluniau rhyddhau da yn dibynnu ar allu sefydliadau partner i gydweithio, yn ogystal â her fewnol, felly dylai trefniadau i graffu ar y cyd hefyd fod wedi'u sefydlu. Mae'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Gofal yn y Gymuned/y Dirprwy Brif Weithredwr yn cynrychioli'r Bwrdd Iechyd ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys. Diweddarodd y Bwrdd Partneriaeth ei nodau allweddol a'u cyhoeddi ym mis Tachwedd 2016. Er nad yw cynllunio i ryddhau wedi'i gynnwys fel un o brif flaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth, mae'r Bwrdd wedi gofyn i grwpiau cysylltiedig gyflwyno adroddiad blynyddol ar welliannau i wasanaethau gofal canolraddol i bobl hŷn, gan gynnwys capasiti a phrosesau ailalluogi a llwybrau rhyddhau o ysbytai. Mae'r Bwrdd Partneriaeth hefyd wedi gofyn am ddau gyflwyniad yn seiliedig ar sgwrs 'Beth Sy'n Bwysig'[16] ond ceir diffyg eglurder ynghylch pwy fydd yn darparu'r newyddion diweddaraf neu erbyn pryd y bydd hynny'n digwydd.

## Mae'r wybodaeth ynghylch monitro ac adrodd ar berfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion yn brin, ac ni cheir trefniadau i fonitro'r graddau y cydymffurfir â gweithdrefnau cynllunio i ryddhau

71 I ddibenion monitro ac adrodd, mae'n hanfodol cael yr wybodaeth gywir am berfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yw'r unig fesuriad cenedlaethol, ar gyfer sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol, felly ceir monitro, adrodd a chraffu rheolaidd ar y mesuriad hwnnw. Nid oes unrhyw fesurau cenedlaethol eraill yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion, ac

[16]Sgwrs 'Beth Sy'n Bwysig' yw'r sgwrs a gynhelir rhwng staff ward a chlaf. Nod y sgwrs yw deall pa faterion sydd bwysicaf o safbwynt llesiant y claf. Fe'i cofnodir ar bapur gan staff y ward. Yn ôl arfer da, dylid cynnal y sgwrs wrth dderbyn y claf a rhoi'r newyddion diweddaraf iddo drwy gydol ei arhosiad. Gellir ei ddefnyddio i gyfeirio claf i wasanaeth arall fel y gwasanaethau cymdeithasol.

mae'r wybodaeth am ansawdd ac effeithiolrwydd cynllunio i ryddhau cleifion yn hygyrch.

72 Fodd bynnag, er mwyn deall oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, dylai sefydliadau'r GIG yn ôl arfer da gael cyfres o fesurau perfformiad, gan gynnwys gwybodaeth am brofiadau a chanlyniadau cleifion yn sgil y broses ryddhau. Gall y rhain fod yn gymysgedd o fesurau meddal a chaled.

73 Yn rhan o'n hadolygiad, buom yn edrych ar y math o wybodaeth am berfformiad a adroddir wrth grwpiau gweithredol a'r Bwrdd neu ei is-bwyllgorau fydd o gymorth i fwrw goleuni ar berfformiad cynllunio i ryddhau cleifion, a pha mor rwydd y mae cleifion yn llifo drwy'r system ysbytai. Yn Nangosyn 7 gwelir y dangosyddion perfformiad a'r diweddariadau a adroddwyd wrth y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad a'r Bwrdd ym Mhowys.

Dangosyn 7: ystod yr wybodaeth am berfformiad a adroddwyd wrth y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad a'r Bwrdd yn ystod 2016-17.

Mae'r tabl yn dangos yr wybodaeth am berfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad a'r Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys rhwng mis Mai 2016 a mis Mehefin 2017.

| Cynllunio i ryddhau cleifion | Llif cleifion |
|---|---|
| • Hysbysiad ynghylch cyflwyno systemau rhyddhau electronig yn Ymddiriedolaeth Ysbytai Amwythig a Telford.<br>• Oedi wrth drosglwyddo gofal cleifion sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu.<br>• Cynllun pwysau tymhorol ar gyfer 2016-17 lle nodir bod tîm y CTG yn helpu i leihau cyfraddau'r trosglwyddiadau amhriodol i ysbytai cymunedol.<br>• Gweithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol i oresgyn diffyg capasiti, sy'n creu her o ran llif cleifion.<br>• Hanes profiadau'r claf. | • % y cleifion newydd nad ydynt yn treulio mwy na 4 awr mewn unedau mân anafiadau (UMAau).<br>• Nifer y cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy mewn UMAau.<br>• 95% o gleifion yn disgwyl llai na 26 wythnos am driniaeth lle bo Powys yn ddarparydd gwasanaeth.<br>• Cyflawniad OCTG fesul 10,000 o boblogaeth y Bwrdd Iechyd - heb gynnwys iechyd meddwl (75 oed a hŷn). |

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o bapurau a gyflwynwyd gerbron y Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys

74 Mewn ymateb i'n harolwg aelodau bwrdd:

- Roedd 8 o 12 o aelodau bwrdd (66%) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar lif cleifion, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 75%; ac

- roedd 10 o 12 o aelodau bwrdd (83%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn deall y rhesymau dros oedi wrth ryddhau cleifion o ysbytai o fewn eu sefydliad, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 82%;

75 Dyma wybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol i ddeall perfformiad cynllunio i ryddhau cleifion yn arbennig, ond nad yw'n cael ei hadrodd naill ai'n weithredol neu'n strategol:

- nifer a % y cleifion yr amcanwyd dyddiad rhyddhau ar eu cyfer;
- aildderbyniadau cyn pen 28 diwrnod ar ôl rhyddhau o'r ysbyty;
- y ganran sy'n cael eu rhyddhau cyn hanner dydd;
- y ganran sy'n cael eu rhyddhau gyda'r nos, heb i hynny fod wedi'i gynllunio; a'r
- ganran sy'n cael eu rhyddhau cyn pen 24 awr a 72 awr yn dilyn datganiad eu bod yn 'feddygol iach'.

76 Roedd Prosiect Ffocws ar Lif y Bwrdd Iechyd gynt yn rhan o Raglen y Bwrdd Iechyd ar gyfer Darparu Gofal Sylfaenol a Gofal yn y Gymuned. Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes, penderfynodd y Bwrdd Iechyd atgyfnerthu strwythur llywodraethu'r rhaglen. Mae'r prosiect bellach yn cael ei reoli gan y Bwrdd Rhaglen Gofal Heb ei Drefnu, a gadeirir gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, Gofal yn y Gymuned a Iechyd Meddwl, ac yn adrodd wrth Grŵp Llywio'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, Gofal yn y Gymuned a Iechyd Meddwl bob chwarter.

77 Nodir yn y polisi rhyddhau fod y Bwrdd yn monitro cydymffurfiaeth â'r polisi, ond nid oes unrhyw gofnod bod archwiliad ynghylch hynny wedi'i gyflwyno gerbron y Bwrdd na'i bwyllgorau. Ar ben hynny, nid oedd staff yn ymwybodol bod archwiliad wedi cael ei gynnal yn y pum mlynedd diwethaf. Yn y prosiect Ffocws ar Lif, nodir y bydd angen cynnal archwiliadau o gofnodion cleifion er mwyn sicrhau bod staff yn ymwreiddio cynlluniau rhyddhau da i arferion bob dydd. Nodir ynddo hefyd y dylai'r Bwrdd Llif gynnal archwiliad a gwerthusiad er mwyn gwella gwaith amlddisgyblaeth. Bydd archwiliadau fel hyn, yn ogystal ag archwiliadau o'r polisi rhyddhau, yn hanfodol er mwyn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd bod staff yn gweithredu'r gwelliannau y mae'n ceisio eu sicrhau mewn modd cyson. Bydd angen cynnal yr archwiliadau hyn yn ddigon rheolaidd er mwyn sicrhau bod staff ar draws y Bwrdd Iechyd yn ymwreiddio gwelliannau yn rhan o arferion beunyddiol.

78 Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG pa wybodaeth y gellid ei chasglu ar eu systemau gweinyddu cleifion. Yn Nangosyn 8 gwelir bod gan y rhan fwyaf o systemau gweinyddu cleifion y gallu i gipio ystod o ddata er mwyn helpu i gynllunio i ryddhau cleifion. Fodd bynnag, ychydig llai na hanner ohonynt sydd yn cynnwys y gallu i gofnodi a yw proses ryddhau yn syml neu'n gymhleth.

Dangosyn 8: meysydd data ar systemau gweinyddu cleifion sefydliadau'r GIG yn gysylltiedig â'r broses ryddhau

Mae'r tabl yn dangos mai amrywiaeth gyfyng o ddata y gellir ei chofnodi ar y rhan fwyaf o systemau gweinyddu cleifion y GIG yn gysylltiedig â'r broses ryddhau i gefnogi gwaith monitro gweithredol. Fodd bynnag, ychydig llai na hanner y systemau a all gasglu gwybodaeth ynghylch a yw proses ryddhau yn syml neu'n gymhleth.

| Meysydd data ar systemau gweinyddu cleifion sydd yn gysylltiedig â'r broses ryddhau | Nifer sefydliadau'r GIG sy'n ymateb yn gadarnhaol |
|---|---|
| Dyddiad rhyddhau disgwyliedig | 12 |
| Dyddiad rhyddhau o'r ysbyty | 12 |
| Amser rhyddhau o'r ysbyty | 12 |
| Cyrchfan ar ôl rhyddhau ee, cartref yr unigolyn, cartref gofal preswyl, trosglwyddo i ysbyty arall ac ati | 12 |
| Dyddiad datgan bod y claf yn feddygol iach i'w ryddhau | 8 |
| A yw'r achos o ryddhau yn syml neu'n gymhleth | 5 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (Gweler Troednodyn 8)


79 Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod ei orsaf waith glinigol yn gallu cofnodi'r holl ddata a gyflwynir yn Nangosyn 8. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd ynghylch y modd y mae'r sefydliad yn casglu data i ddangos a yw proses ryddhau yn syml neu'n gymhleth, yn niffyg llwybrau rhyddhau ffurfiol. Nid oes dangosfwrdd perfformiad cyfredol ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion, ond nid yw hyn wedi'i gynnwys ymhlith camau gweithredu sydd heb eu cwblhau ym mhrosiect y Ffocws ar Lif. Mae staff ward yn croesawu gwaith i ddatblygu dangosfwrdd perfformiad, gan eu bod yn gobeithio y bydd yn arwain at wybodaeth gadarnach a mwy hygyrch. Dywedodd staff wrthym nad yw'r systemau cyfredol sydd ar waith i fonitro cleifion yn gwbl effeithiol, gan fod manylion cleifion yn aml yn cael eu dyblygu ar y system, a bod yn rhaid gwneud gwaith caib a rhaw i adalw gwybodaeth o'r system i'w darparu i aelodau uwch o staff ei monitro. Bydd system dangosfwrdd gadarnach yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i adolygu a rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol gyda phartneriaid allweddol.

## Nid yw gwaith i wella cynlluniau rhyddhau wedi'i adlewyrchu eto mewn gwelliannau i fesurau perfformiad allweddol

80 Cynhaliodd yr Uned Gyflawni ei hadolygiad o waith cynllunio i ryddhau cleifion yn y Bwrdd Iechyd yng nghanol 2016. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu a gweithredu ei Brosiect Ffocws ar Lif, a oedd yn cynnwys argymhellion yr Uned Gyflawni. Mae'n rhy fuan i wneud sylwadau ynghylch effaith y newidiadau hyn ar berfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Yn Nangosyn 9 gwelir brigau a'r pantiau yn yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal a adroddir bob mis rhwng mis Ebrill 2015, flwyddyn cyn adolygiad yr Uned Gyflawni o gynlluniau rhyddhau a mis Mai 2017, flwyddyn yn ddiweddarach. Er mai bach yw'r niferoedd dan sylw, mae nifer yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal wedi tueddu i ostwng ers 2016. Cafwyd ychydig o amrywio yn ystod 2017 ar ôl yr uchafbwynt ym mis Ionawr, y gellid ei briodoli i bwysau tymhorol.

Dangosyn 9: tueddiadau oedi wrth drosglwyddo gofal (ac eithrio cyfleusterau iechyd meddwl) rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mai 2017

Dengys y siart fod yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mai 2017 wedi tueddu i ostwng ac amrywio, er mai bach yw'r niferoedd dan sylw.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gronfa ddata trosglwyddo gofal GIG Cymru, Mai 2017

81 Er bod cyfanswm yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal (ac eithrio'r rhai sydd mewn cyfleusterau iechyd meddwl) wedi gostwng 19% o 312 yn 2015-16 i 254 yn 2016-17, mae nifer y cleifion sy'n wynebu 13 neu fwy o wythnosau o oedi ar gynnydd (Dangosyn 10).

Dangosyn 10: newid yn nifer yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal (ac eithrio cyfleusterau iechyd meddwl) yn ôl hyd yr oedi rhwng 2015-16 a 2016-17

Mae'r tabl yn dangos y newid yn nifer yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal yn ôl hyd yr oedi ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys, a bod nifer y cleifion sy'n wynebu 13 neu fwy o wythnosau o oedi ar gynnydd.

| Hyd yr oedi | Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal | |
|---|---|---|
| | 2015-16 | 2016-17 |
| 0-3 wythnos | 185 | 139 |
| 4-6 wythnos | 76 | 43 |
| 7-12 wythnos | 43 | 31 |
| 13-26 wythnos | 8 | 22 |
| 26+ wythnos | 0 | 3 |
| Cyfanswm yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal | 312 | 254 |


Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gronfa ddata trosglwyddo gofal GIG Cymru, Mai 2017

82 Disgwylir i gyrff y GIG leihau hyd arosiadau ar gyfer derbyniadau meddygol brys. Mesurir perfformiad ar sail cyfnod treigl o 12 mis (mae'r perfformiad a adroddir yn unrhyw fis felly'n cynrychioli cyfartaledd y 12 mis blaenorol, y hytrach na pherfformiad yn ystod y mis hwnnw) Yn Nangosyn 11 ychydig o newid a welir o ran cyfartaledd treigl hyd yr arosiadau[17] ar gyfer derbyniadau meddygol brys dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda chyfartaledd y Bwrdd Iechyd yn gyson ddwbl cyfartaledd Cymru. Dylir nodi bod ffigwr cyfartaledd Cymru yn cynnwys ysbytai aciwt a chymunedol, lle ym Mhowys mae’r ffigwr yn cynnwys ysbytai cymunedol yn unig, sydd rhan amlaf yn gweld lefelau uwch o hyd arhosiad cyfartalog na ysbytai aciwt. Er i'r Bwrdd Iechyd ymrwymo'n ddiweddar i weithio tuag at Hyd Arhosiad Cyfartalog o 21 diwrnod fel targed, dengys y graff y gallai'r Bwrdd Iechyd fod yn fwy uchelgeisiol, gan fod ei lefelau wedi parhau'n gyson o amgylch 21 diwrnod dros y cyfnod lle casglwyd y data.

[17] Mae'r perfformiad a adroddir ar gyfer unrhyw fis unigol yn cynrychioli cyfartaledd y 12 mis blaenorol, yn hytrach na pherfformiad yn ystod y mis hwnnw.

Dangosyn 11: tueddiadau'r hyd arhosiad cyfartalog (diwrnodiau) ar sail cyfnod treigl o 12 mis ar gyfer derbyniadau brys mewn wardiau meddygol cyfun rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2017

Mae'r siartiau'n dangos ychydig o amrywio yn hyd arosiadau cyfartalog treigl ar gyfer derbyniadau meddygol brys dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a bod hyd cyfartalog yr arosiadau yn gyson dros 10 diwrnod yn uwch na chyfartaledd Cymru.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata effeithlonrwydd GIG Cymru gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Mawrth 2017

# Atodiad 1

## Canfyddiadau meintiol Uned Gyflawni GIG Cymru o archwiliadau o gynlluniau rhyddhau yn ysbytai cymuned y Bwrdd Iechyd.

### Dangosyn 12: statws CAG[18] asesiad yr Uned Gyflawni o dystiolaeth ysgrifenedig mewn nodiadau achos yn erbyn gofynion penodol a nodir yn Passing the Baton[19]

Mae'r tabl yn dangos bod tystiolaeth ysgrifenedig yn gysylltiedig â'r broses rhyddhau cleifion yn amrywio o'i hasesu yn erbyn arferion disgwyliedig

| Proses ryddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbytai cymunedol |
|---|---|---|
| **Cam 1** Yr holl achosion rhyddhau, cyn pen 24 awr ar ôl derbyn cleifion | Nodir a yw'r broses ryddhau yn syml/gymhleth wrth dderbyn i'r ysbyty, neu'n fuan wedyn. | |
| | Bydd rhywun yn sgwrsio â'r claf i'w holi sut yr oedd yn ymdopi cyn cael ei dderbyn i'r ysbyty, fel bo modd nodi unrhyw ofynion ar gyfer rhyddhau, a chynllunio ar gyfer hynny, o'r dyddiad derbyn. | |
| | Bydd rhywun yn sgwrsio â phrif ofalwr y claf (lle bo'n briodol) er mwyn nodi unrhyw ofynion rhyddhau yn fuan ar ôl derbyn y claf i'r ysbyty. | |
| | Nodir cyflyrau hirdymor wrth dderbyn y claf i'r ysbyty, a sefydlir canfyddiad y claf o'i statws cyfredol. | |
| | Nodir y trefniadau presennol ar gyfer cydgysylltu gofal a chefnogi yn y gymuned. | |
| | Darperir gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion a'u teuluoedd ynghylch yr hyn y dylent ei ddisgwyl o'r broses ryddhau, a'r hyn a ddisgwylir ganddynt hwythau. | |
| **Cam 2** Achosion rhyddhau cymhleth | Cynhelir sgyrsiau buan â darparwyr gwasanaeth presennol er mwyn nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg, ac ymdrin â'r materion hynny mewn modd rhagweithiol. | |
| | Nodi'r cydgysylltydd gofal cyfredol. | |
| | Mewn achosion rhyddhau cymhleth, bydd y claf a'r gofalwr yn cael manylion cyswllt y gweithiwr proffesiynol a enwebir i weithredu fel eu cydgysylltydd gofal. | |

[18]Mae'r system goleuadau traffig CAG (coch, ambr, gwyrdd) yn darparu cod lliw i ddangos lle mae perfformiad yn is na'r optimwm.

[19] Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, **Passing the Baton**, 2008

| Proses ryddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbytai cymunedol |
|---|---|---|
| | Mewn achosion rhyddhau cymhleth, trefnir cynhadledd achos gan y tîm amlddisgyblaeth i ystyried asesiadau a chytuno ar gynllun rhyddhau gyda'r claf/gofalwr. | |
| **Cam 3** Bob tro wrth ryddhau | Wedi sefydlu amcan o'r dyddiad rhyddhau (ADRh). | |
| | Mae'r ADRh yn ystyriol o gamau acíwt ac adsefydlu, lle bo'n berthnasol. | |
| **Cam 4** Bob tro wrth ryddhau | Cyfathrebir yn glir â'r claf a'i deulu/ofalwyr ynghylch yr ADRh. | |
| | Caiff cynlluniau rhyddhau eu hadolygu'n ddyddiol, ac fe geir tystiolaeth o gamau a gwblhawyd. | |
| | Nodir cyfyngiadau posibl a gweithredir yn eu sgil/cyfeirir y materion hynny i lefel uwch | |
| | Mae'r claf a'i deulu/ofalwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd y cynllun rhyddhau. | |
| Achosion rhyddhau cymhleth | Ystyrir llwybrau amgen yn y gymuned er mwyn hwyluso rhyddhau ynghynt a chynyddu annibyniaeth hyd yr eithaf. | |
| | Ystyrir y model 'rhyddhau/trosglwyddo' i asesu ym mhob achos rhyddhau cymhleth. | |
| | Y cydgysylltydd gofal yn casglu asesiad amserol gan y tîm amlddisgyblaeth. | |
| | Caiff cynllun rhyddhau ei ddylunio'n arbennig gyda'r claf/gofalwr, gan adlewyrchu cryfderau'r claf a'r hyn sydd bwysicaf iddo. | |
| | Ystyrir darpariaeth y trydydd sector lle bo'n briodol. | |
| | Lle bo angen, trefnir cyfarfodydd amlddisgyblaeth mewn modd amserol (ee, i drafod y lleoliad nesaf a phennu cymhwystra CIC). | |
| | Os oes angen lleoliad mewn cartref gofal, rhoddir gwybodaeth glir i'r claf a'r gofalwr am gategori'r cartref gofal y dylent fod yn chwilio amdano. | |
| | Gwybodaeth am gartrefi gofal yn yr ardal. | |
| | Gwybodaeth am y Polisi Dewis | |
| | Gwybodaeth am sut y gallant gael cymorth i chwilio am gartref addas os oes angen hynny (ee, y trydydd sector) | |
| **Cam 5** Bob tro wrth ryddhau | Cwblheir rhestr wirio er mwyn sicrhau bod yr holl agweddau ymarferol yn gysylltiedig â rhyddhau wedi'u hystyried. | |

Ffynhonnell: Uned Gyflawni GIG Cymru, Archwiliad o'r Trefniadau i Ryddhau Cleifion ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys, 2016

# Atodiad 2

## Dull archwilio

Cynhaliwyd ein hadolygiad o gynllunio i ryddhau cleifion ledled Cymru rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2017. Nodir manylion ein dull archwilio isod.

### Dangosyn 13: methodoleg archwilio

Mae'r tabl yn dangos ystod y gwaith a gyflawnwyd yn rhan o'r broses archwilio.

| Dull | Manylion |
|---|---|
| Ffurflen Casglu Data – Gwybodaeth am y modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn Cynllunio i ryddhau cleifion | Ceisiwyd gwybodaeth ar lefel gorfforaethol ynghylch y graddau y rhennir blaenoriaethau wrth ryddhau cleifion a throsglwyddo gofal; y gwasanaethau neu'r timau sydd ar gael i gefnogi rhyddhau cleifion mewn modd amserol; tirlun gwasanaethau cymunedol; hyfforddiant i gefnogi'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion; rheoli perfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion; a'r graddau y rhennir gwybodaeth am wasanaethau addasu tai â sefydliadau'r GIG. Defnyddiwyd yr wybodaeth a ddychwelwyd i gefnogi'r archwiliad cynllunio i ryddhau cleifion, ac astudiaeth yr Archwilydd Cyffredinol o addasiadau tai.<br>Cwblhaodd a chyflwynodd y Bwrdd Iechyd y ffurflen casglu data. |
| Ffurflen Casglu Data – Lolfa Ryddhau | Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG a oedd yn gweithredu gwasanaethau lolfa ryddhau i ddisgrifio pob lolfa ryddhau. Gofynnwyd am yr oriau gweithredu, y proffil staffio, nifer y cleifion yr oedd y lolfa yn ei gynnwys a'r amgylchedd i cleifion.<br>Ni chyflwynodd y Bwrdd Iechyd ffurflen gan nad oes ganddo unrhyw lolfa ryddhau. |
| Ffurflen Casglu Data – Tîm Cyswllt Rhyddhau Cleifion. | Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG sôn wrthym am y Tîm Cyswllt Rhyddhau os oedd y timau hynny i'w cael. Gofynnwyd am wybodaeth ynghylch oriau gweithredu, y proffil staffio, costau'r tîm/gwasanaeth a natur ei weithgarwch. Lle'r oedd sawl Tîm Cyswllt Rhyddhau yn gweithredu, byddai un ffurflen yn cael ei llenwi ar gyfer pob prif ysbyty acíwt os oedd y timau'n gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd. Os oedd y Tîm Cyswllt Rhyddhau yn gweithredu fel un gwasanaeth integredig, byddai un ffurflen yn cael ei chwblhau.<br>Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd un ffurflen ar gyfer tîm y Cydgysylltydd Trosglwyddo Gofal; mae'r gwasanaeth yn ymdrin â'r holl safleoedd ysbyty. |
| Cais am ddogfennau | Buom yn adolygu dogfennau gan y Bwrdd Iechyd a drafodai strategaethau a chynlluniau ar gyfer rheoli llif cleifion a gofal heb ei drefnu, polisïau'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion, trosglwyddo gofal a dewis cartref, |

| Dull | Manylion |
|---|---|
| | llwybrau rhyddhau, cynlluniau gweithredu i wella prosesau cynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion ac adroddiadau ar berfformiad, gan gynnwys rhai'n gysylltiedig â phrofiad y claf neu wybodaeth am gwynion a digwyddiadau'n gysylltiedig â phrosesau rhyddhau. Dibynnwyd hefyd ar wybodaeth yn yr adroddiadau a luniwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan bob bwrdd iechyd neu bartneriaeth ranbarthol, a roddai grynodeb o'r defnydd a wnaed o'r Gronfa Gofal Canolraddol, ac effaith y gronfa honno, yn 2015-16. |
| Cyfweliadau | Buom yn cyfweld â nifer o aelodau staff, gan gynnwys:<br>• Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Gofal yn y Gymuned a Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu<br>• Pennaeth Nyrsio<br>• Rheolwyr Tîm Clinigol Integredig (de orllewin a chanolbarth Powys)<br>• Dau Gydgysylltydd Trosglwyddo Gofal<br>• Rheolwyr Ward (un grŵp o ogledd Powys ac un o dde Powys)<br>• Pennaeth Gweithrediadau Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Powys<br>• Rheolwyr Cyffredinol Ardal (gogledd a de Powys)<br>• Pennaeth Therapïau<br>• Cynrychiolydd o'r Cyngor Iechyd Cymunedol |
| Defnydd o ddata presennol | Defnyddiwyd ffynonellau gwybodaeth sy'n bodoli eisoes, lle'r oedd hynny'n bosibl, fel gwaith yr Uned Gyflawni o 2016 ar gynllunio i ryddhau cleifion, data o wefan StatsCymru ar gyfer nifer yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal, gwelyau ysbyty, staff, derbyniadau, cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy mewn adrannau damweiniau ac achosion brys a hyd arosiadau. |

# Atodiad 3

## Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion

Dangosyn 14: ymateb y rheolwyr

Argymhellion yr adroddiad a'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu eu cymryd i ymdrin â'r rhain

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaeno-riaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | **Datblygu llwybrau:** Nid oedd llwybrau rhyddhau wedi'u sefydlu ar adeg yr archwiliad. Er bod gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau i adolygu llwybrau proffil cleifion, mae'r ffaith na cheir llwybrau ffurfiol, hawdd eu deall a hygyrch i staff wardiau yn cynyddu'r risg o anghysondeb ac o oedi cyn rhyddhau cleifion. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a. gyflwyno llwybrau rhyddhau manwl ar gyfer pob claf;<br>b. sicrhau bod llwybrau rhyddhau wedi'u nodi'n glir ym mholisi rhyddhau'r Bwrdd Iechyd; | Llwybrau hygyrch a hawdd eu deall sy'n cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, ac y mae staff yn teimlo'n hyderus i'w cymhwyso wrth ryddhau cleifion. | ydy | ydy | Nid oes ond dau lwybr ar gael wrth ryddhau o ysbyty cymunedol:<br>1. Cartref neu breswylfan arferol y claf<br>2. Cartref Gofal Newydd<br><br>Ceir rhestr wirio rhyddhau ar gyfer y naill a'r llall. Prosesir y rhestrau drwy'r Bwrdd Llif Cleifion, ac mae cyfarfod wythnosol y tîm amlddisgyblaeth yn cefnogi hyn. | | |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaeno-riaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | c. sicrhau bod llwybrau yn hawdd eu deall ac yn hygyrch i staff ward, ee drwy siart lif neu fatrics syml a arddangosir yn ardaloedd y staff ar y ward; a<br>d. darparu hyfforddiant i staff ward ar gymhwyso llwybrau rhyddhau. | | | | Bydd y modelau Rhyddhau i Asesu a gwaith integredig yn cael eu datblygu yn rhan o'r gwaith parhaus ar lif cleifion. Efallai nad oedd hyn yn amlwg wrth gychwyn yr archwiliad, ond mae'n rhan greiddiol o'r broses o'r rhaglen moderneiddio llif.<br><br>**Camau Gweithredu:**<br>• Cyflwyno llwybrau rhyddhau penodol sy'n trafod rhyddhau naill ai i gartref neu breswylfan arferol y claf, neu i Gartref Gofal Newydd.<br>• Sicrhau bod y llwybrau rhyddhau hyn wedi'u nodi ym mholisi rhyddhau'r Bwrdd Iechyd<br>• Sicrhau bod llwybrau yn hawdd eu deall ac ar gael yn rhwydd i staff ward, wedi'u harddangos | Mawrth 2018 | Penaethiaid Nyrsio |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaeno-riaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | yn ardaloedd y staff ar y wardiau;<br>• Darparu hyfforddiant i staff ward ar gymhwyso llwybrau rhyddhau | | |
| A2 | **Adolygu'r polisi:** Gwelsom fod y polisi rhyddhau a oedd yn cael ei adolygu yn ystod ein gwaith maes wedi'i gytuno'n â phartneriaid allweddol, ond bod lle i gryfhau'r polisi eto yn erbyn y meini prawf a osodwyd gennym. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried yr elfennau a sgoriwyd yn isel wrth ddiwygio'r polisi hwn. | Polisi rhyddhau ac ynddo'r holl wybodaeth angenrheidiol i roi arweiniad i staff ar ryddhau cleifion yn ddiogel, ac mewn modd amserol i'r lleoliad mwyaf addas. | ydy | ydy | **Camau Gweithredu:**<br><br>Adolygu;<br><br>• Polisi Rhyddhau<br>• Polisi Dewis | Mawrth 2018 | Penaethiaid Nyrsio |
| A3 | **Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau.** Gwelsom nad oes trefniadau cyson ar hyn o bryd i ddarparu hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau i'r holl staff perthnasol. Dylai'r Bwrdd Iechyd: | Y polisi rhyddhau wedi'i gymhwyso'n gyson gan holl staff y Bwrdd Iechyd. | ydy | ydy | **Camau Gweithredu:**<br><br>Darparu'r hyfforddiant canlynol:<br><br>• Cynnwys cynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o'r hyfforddiant ymsefydlu | Mawrth 2018 | Penaethiaid Nyrsio |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaeno-riaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | gynnwys cynllunio i ryddhau yn rhan o'r hyfforddiant ymsefydlu i bob aelod newydd o staff;<br>garparu hyfforddiant gloywi ar gynllunio i ryddhau i'r holl staff perthnasol, o bosib yn rhan o gwrs e-ddysgu a allai fod yn fwy hygyrch i staff ward. | | | | i bob aelod newydd o staff;<br>• Hyfforddiant gloywi ar gynllunio i ryddhau cleifion i bob aelod perthnasol o staff. | | |
| A4 | **Cydymffurfiaeth â'r polisi rhyddhau.** Nodir yn y polisi rhyddhau y dylid cynnal archwiliadau cydymffurfio rheolaidd, ond gwelsom nad oes archwiliad o'r fath wedi cael ei gynnal yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Nid yw'r diffyg gwybodaeth ar gyfer monitro'r graddau y cydymffurfir â phrosesau cynllunio i ryddhau yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd fod y staff yn cymhwyso'r polisi fel y bwriadwyd Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno cylch rheolaidd (tair i bum mlynedd) o archwiliadau er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i bolisi rhyddhau. | Sicrwydd i gorff perthnasol o fewn y Bwrdd Iechyd bod camau i wella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion a chydymffurfiaeth â'r polisi rhyddhau cleifion yn cael eu gweithredu a'u hymwreiddio. | ydy | ydy | **Camau Gweithredu:**<br>• Cyflwyno cylch rheolaidd o archwiliadau er mwyn sicrhau cydymffurfio â'r polisi rhyddhau | Mawrth 2018 | Penaethiaid Nyrsio |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaeno-riaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A5 | **Adroddiadau rhyddhau.** Gwelsom fod y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad yn derbyn gwybodaeth reolaidd am achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal, ond mai ychydig o wybodaeth a gyflwynir iddynt yn benodol am gynllunio i ryddhau cleifion. Byddai gwybodaeth o'r fath o gymorth i sicrhau dealltwriaeth well o'r rhesymau wrth wraidd perfformiad y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu ei drefniadau i adrodd ar berfformiad drwy gynnwys mesurau ychwanegol yn ei adroddiad rheolaidd ar berfformiad, fel:<br>• nifer a chanran y cleifion yr amcanwyd dyddiad rhyddhau ar eu cyfer;<br>• aildderbyniadau cyn pen 28 diwrnod ar ôl rhyddhau o'r ysbyty;<br>• canran sy'n cael eu rhyddhau cyn hanner dydd;<br>• canran sy'n cael eu rhyddhau gyda'r nos, heb i hynny fod wedi'i gynllunio; a'r | Mae Bwrdd a chanddo olwg dda ar berfformiad y Bwrdd Iechyd o ran cynllunio i ryddhau cleifion, yn ymwybodol o'r profiad a gaiff cleifion yn ystod y broses o gynllunio i'w rhyddhau, ac yn gweld unrhyw effaith negyddol ar ganlyniad claf yn sgil cynllunio (neu ddiffyg cynllunio) i'w ryddhau. | ydy | ydy | Cofnodir hyn bob mis ar hyn o bryd ar yr offeryn safonau Iechyd a Gofal<br><br>**Camau Gweithredu:**<br><br>• Archwilio'r datblygiadau'n gysylltiedig â darparu adroddiad ar ddangosyddion perfformiad proses ar IFOR.<br>• Sicrhau perfformiad cryfach yn gysylltiedig â dealltwriaeth well o Hyd Cyfartalog Arosiadau. | Mawrth 2018 | Penaethiaid Nyrsio |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaeno-riaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | • canran sy'n cael eu rhyddhau cyn pen 24 awr a 72 awr yn dilyn datganiad eu bod yn 'feddygol iach'. | | | | | | |
| A6 | **Cyfathrebu â chleifion:** Er bod y pamffled rhyddhau cleifion yn ymddangos fel pe bai wedi'i lunio'n dda ac yn gynhwysfawr, nid oedd y staff y buom ni yn siarad â hwy yn ei ddefnyddio'n rheolaidd wrth ymdrin â chleifion. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cleifion yn deall y broses ryddhau drwy:<br>a. sicrhau bod y pamffled rhyddhau cleifion yn cael ei ddefnyddio mewn modd cyson er mwyn rhoi gwybodaeth i gleifion;<br>b. sicrhau bod gan staff ar bob ward berthnasol fynediad at bamffled rhyddhau cleifion; a<br>c. sefydlu mesurau i ddeall a yw cleifion yn teimlo eu bod yn gwybod digon am y broses Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal. | Cleifion sydd yn deall mwy ynglŷn â'u hamgylchiadau, eu hanghenion ac unrhyw newidiadau sylweddol y dylent fod yn ymwybodol ohonynt yn ystod y broses cynllunio i ryddhau cleifion. | ydy | ydy | **Camau Gweithredu:**<br>• Adolygu a datblygu pecynnau derbyn wardiau | Mawrth 2018 | Penaethiaid Nyrsio |

# Atodiad 4

## Gweithgareddau a gyflawnir gan Dimau Cyswllt Rhyddhau

Yn rhan o'r adolygiad hwn, gofynnwyd i'r byrddau iechyd pa mor aml y byddai eu timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni amrywiaeth weithgareddau'n gysylltiedig â chynllunio i ryddhau. Yn Nangosyn 15 gwelir pa mor aml y cyflawnir y gweithgareddau a restrir yn 15 o'r timau cyswllt rhyddhau cleifion ledled Cymru.

### Dangosyn 15: pa mor aml y bydd y timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau

Dengys y tabl hwn pa mor aml y bydd y timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau.

| Gweithgaredd | Bob amser | Yn aml | Weithiau | Yn anaml | Byth |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymryd rhan mewn rhawdiau ward neu gyfarfodydd amlddisgyblaeth. | 33% | 40% | 20% | 7% | 0% |
| Staff cymorth yn nodi cleifion bregus a allai wynebu oedi | 53% | 40% | 7% | 0% | 0% |
| Sicrhau bod cynlluniau rhyddhau unigol ar waith i gleifion ag anghenion cymhleth. | 60% | 27% | 13% | 0% | 0% |
| Cysylltu â chyrff cyhoeddus eraill i rwyddhau'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty ac osgoi aildderbyniadau. | 60% | 27% | 7% | 7% | 0% |
| Creu man cyswllt canolog ar gyfer ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol. | 67% | 33% | 0% | 0% | 0% |
| Gweithio gyda rheolwyr gweithredol i ddatblygu mesurau perfformiad ar gyfer rhyddhau cleifion o ysbytai. | 27% | 20% | 40% | 7% | 7% |

| Gweithgaredd | Bob amser | Yn aml | Weithiau | Yn anaml | Byth |
|---|---|---|---|---|---|
| Dilysu data ar oedi cyn trosglwyddo gofal | 87% | 7% | 0% | 0% | 7% |
| Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff clinigol ar ryddhau cleifion mewn modd amserol. | 33% | 13% | 40% | 13% | 0% |
| Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i reolwyr gwely ynghylch rhyddhau cleifion. | 67% | 20% | 0% | 7% | 7% |
| Darparu cyngor a chymorth ynghylch opsiynau tai i gleifion a'u teuluoedd. | 27% | 27% | 20% | 7% | 20% |
| Cyfeirio cleifion a'u teuluoedd i dderbyn cyngor a chefnogaeth er mwyn parhau i fyw'n annibynnol gartref. | 33% | 27% | 27% | 7% | 7% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (Gweler Troednodyn 8)

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Welsh Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Phone: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales